
Rhif 191 Hydref – Tachwedd 2014 40c

# Gwyliedydd

Synod Cymru

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD






Tybed beth fuasai'n rhoi gwên ar wyneb Siân Owen? Darllenwch ***O'r Pen Yma*** gan Angharad Tomos ar dudalen 11

Beth yw'r ffydd sy'n ein cynnal? Gweler ***Defosiwn*** tudalen 9

Llawenhawn a gorfoleddwn,
a rhown iddo'r gogoniant
(Dat. 19:7)

# Bydded y nefoedd yn llawen a gorfoledded y ddaear

Salm 96:11



**BETHEL, PRESTATYN**

Cafodd pump o aelodau newydd eu derbyn yn ddiweddar gan y Parchedig Thomas Evans Williams. Croesawyd Geraint a Claire Rowe, Siôn Huw a Rachel Davies a Mari Geraint yn gyflawn aelodau yn yr Eglwys Fethodistaidd. Dyma lun ohonynt gyda'u plant Gethin, Carys, Joseff, Alaw ac Ifan. Boed bendith Duw ar bob un ohonoch.

## Dyma rai lluniau hefyd o'r plant yn mwynhau gwahanol weithgareddau yn Ysgol Sul Bethel
















**Priodas Dafydd Arfon a Mari Angharad. Boed bendith ar y ddau. Mae'r hanes i'w weld yn Capel Ni – Eglwys Unedig Colwyn**

---

## Y DDAU ANGEL

Stori ar gyfer y Diolchgarwch
gan Elwyn Parry




Un tro anfonodd Duw ddau angel i'r ddaear. Gan un ohonynt, roedd basged fawr ac ynddi roedd pobl yn cael rhoi gweddïau i ofyn am bethau roedd arnynt eu heisiau. Roedd gan yr angel arall fasged fawr, braf hefyd. Ar ei fasged ef roedd y gair 'Diolchiadau'. Ymhen peth amser, aeth y ddau yn ôl i'r nefoedd. Ond wyddoch chi beth? Roedd y fasged ar gyfer gofyn am bethau yn llawn dop, a'r fasged 'Diolchiadau' bron yn wag. Beth amdanom ni – ydym ni'n diolch digon?

**Gweddi ar gyfer y Diolchgarwch:** Ein Tad nefol, rwyt ti wedi rhoi i ni fendithion di-ri. Gofynnwn yn ostyngedig iawn am un fendith arall sef calon i fod yn ddiolchgar amdanynt. Amen.

# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD

Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 191**
**HYDREF - TACHWEDD 2014**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn; 40c y copi;
6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

***Golygyddion:***



**ROBIN JONES**
LLYS ALAW
18 STÂD ERYRI
BETHEL
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn: 01248 670140
symudol: 07780869907
e-bost:
robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA
GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
e-bost:
ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



***Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion***

**DYDDIAD CAU: 3 TACHWEDD, 2014**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i
"**Yr Eglwys Fethodistaidd – Synod Cymru"**

Argraffwyr:
Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018


Diolch i Robin am englyn y clawr
ac i Paul am y llun

Derbyniwyd yn ddiolchgar rodd ddienw o £50 a rhodd o £5 gan Glyn a Megan Jones, Gwelafon, Corwen.

*Er cof annwyl am ein rhieni,*
**Peter ac Elizabeth Roberts**
(Bebington gynt)
gan Megan a Merfyn

*Er cof annwyl am ein rhieni,*
**Y Parchedig G. R. a Mrs J.M. Jones**
Rhosllannerchrugog, gan y plant.
Diolch am y rhodd garedig o £20 i'r *Gwyliedydd* er cof amdanynt.

# O'R GADAIR AR Y GOROR

**gan y Parchedig JENNIFER HURD**

Wrth i'r haf droi'n hydref, dwi wedi bod yn rhyfeddu at haelioni'r greadigaeth. Mae gan ein cymdogion goeden afalau, a rhai o'i changhennau'n ymestyn dros ffens gardd gefn y mans. Mae ugeiniau o afalau ar y goeden, a llawer yn disgyn i mewn i ardd y mans, sy'n grêt! Mae mwy o afalau nag y gallwn obeithio eu bwyta, a does fawr o le chwaith i goed bach newydd dyfu o'r hadau yn yr afalau. Ond parhau i roi'r cnwd y mae'r goeden. Hefyd, dwi wedi bod yn fwy ymwybodol rywsut eleni o'r holl hadau bach sy'n disgyn o'r bedw arian. Pan fydd ffenestri'r mans ar agor, bydd yr hadau yma yn cael eu chwythu i mewn i'r tŷ - cannoedd ar gannoedd o hadau mân, a phob un yn meddu ar y posibilrwydd o ddod yn goeden. Wrth gwrs, po fwyaf o hadau sydd, mwyaf yn y byd o siawns sydd gan y rhywogaeth o barhau. Ond mae'n sôn wrthyf am natur haelionus y Creawdwr, sy'n rhoi inni lawer iawn mwy nag sydd arnom ei angen yn y byd yma. Rydym yn byw mewn byd o ddigonedd. Y trasiedi yw nad ydym ni eto wedi dysgu sut i fod mor hael â'n Creawdwr ...

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi bod yn rhedeg ymgyrch o'r enw "Bywyd Hael" (A Generous Life). Mae'n rhaid i mi gyfaddef nad ydw i wedi bod yn gwthio'r ymdrech yma yn Synod Cymru, nid am nad ydw i o'i phlaid - mi ydw i! - ond oherwydd ein bod yn ceisio canolbwyntio ar yr hyn y cytunodd y Synod arno sef "Datblygu Ein Galwad". Ond mae 'na gysylltiad rhwng y ddau, dwi'n meddwl. Wrth sôn am y Bywyd Hael, dyma a ddywedir ynghylch yr Eglwys Fethodistaidd:

A ninnau'n fudiad o ddisgyblion â'n bryd ar genhadu, rydym am fod yn hael fel ein Duw hael: gan roi mwy o amser a mwy o arian, gan ddod i wybod mwy am beth y gallwn ei wneud i newid y byd.

Hefyd,

Er mwyn y Tad, mae'n bryd inni fod yn hael. Mae'n bryd inni

- roi mwy o amser – i fod ar gael i bobl o'n cwmpas
- roi mwy o arian – i wneud gwahaniaeth i fywyd rhywun arall drwy roi rhodd
- newid y byd – un person ar y tro, drwy gyfrwng ein calonnau a'n meddyliau

Tybiaf nad oes llawer o wahaniaeth rhwng y bwriadau yma a themâu "Datblygu Ein Galwad", sef dysgu a gofalu, addoliad, gwasanaeth ac efengylu. Wedi'r cyfan, maent yn tarddu o'r un ffynhonnell sef ein Cyfundeb ni. Y cwestiwn ydi, sut wnawn ni ymateb i her "Datblygu Ein Galwad" – a ydym am wneud hyn mewn ysbryd o haelioni, mewn ymateb i'n Duw hael, sydd wedi rhoi popeth inni ac er ein mwyn, ynteu a ydym am gadw ein dwylo, ein calonnau a'n meddyliau ar gau a chadw popeth i ni ein hunain?

Diolchaf fy mod, ers i mi ddechrau fel Cadeirydd y Synod, wedi cyfarfod â llawer iawn o bobl hael yn ein capeli ni – pobl sy'n barod bob amser i gynnig eu hamser, eu harian a nhw eu hunain yng ngwasanaeth Iesu Grist a'i eglwys, ac i fynd yr ail filltir. Tybed allwn ni fynd ychydig ymhellach o hyd, er mwyn rhannu'n ehangach y newyddion da sydd gennym yn Iesu Grist a dweud am ei gariad at bawb? Allwn ni wneud hyn drwy bethau ymarferol yn ogystal ag yn ein haddoliad a'n geiriau? Dwi'n cynnwys fi fy hun yn hyn o beth gymaint â neb, gan fy mod yn gwybod ei fod yn her, ond ar yr un pryd dyna sut y mae ymateb i'n Duw hael – mewn ffordd hael. Yn wir, pan brofwn haelioni Duw, nid oes dim arall allwn ni ei wneud ond ymateb yn hael: cawn ein bendithio er mwyn bod yn fendith i eraill.

Penderfynodd y Synod ddechrau "Datblygu Ein Galwad" eleni gan ganolbwyntio ar thema Dysgu a Gofalu. Yn eich dwylo ar hyn o bryd mae gennych chi adnodd ardderchog i ddysgu mwy am ein ffydd, i'ch ysbrydoli i ddatblygu'r themâu eraill hefyd: sef y *Gwyliedydd*. Beth am gyfarfod efo grŵp o ffrindiau yn eich capel neu Ardal, dros baned, rhwng rhifynnau'r *Gwyliedydd* er mwyn trafod yr erthyglau? A beth am ymateb mewn ffordd hael, wedi derbyn y *Gwyliedydd* yn rhad ac am ddim, drwy roi cyfraniad at y costau, fel arwydd o ddiolch? Gallwn hefyd basio copïau ymlaen yn ein cymuned. Mi allwn ni fforddio bod yn hael, dwi'n credu, am fod Duw mor hael wrthym ni, ac er mwyn ei deyrnas. Diolch fo i Dduw!

# RHWYDWAITH DYSGU DISGYBLION A GWEINIDOGAETHAU

Blwyddyn yn ôl sefydlwyd y Rhwydwaith Dysgu Disgyblion a Gweinidogaethau (DMLN) er mwyn cefnogi'r Eglwys Fethodistaidd ym mhob agwedd o ddysgu a datblygu. Mae'n cynnwys aelodau o staff a gwirfoddolwyr mewn eglwysi, cylchdeithiau, taleithiau ac ar hyd y Cyfundeb.

Sefydlwyd tîm newydd o staff gyda thua 60 o aelodau fel rhan o'r Tîm Cyfundebol i gynorthwyo eglwysi lleol, cylchdeithiau a thaleithiau yn eu gwaith. Mae'n cynnwys un ar ddeg tîm rhanbarthol, tri thîm arbenigol a thri chyfarwyddwr, wedi eu lleoli ar draws y Cyfundeb ac yng Ngholeg Cliff, Queen's Foundation a Swyddfa'r Cyfundeb yn Llundain. Y prif feysydd gwaith yw:

**Datblygu Disgyblion**
– i feithrin a galluogi disgyblion Crist-debyg

**Datblygiad Eglwysig a Chymunedol**
– i herio a galluogi cymunedau cenhadol

**Datblygu Gweinidogaeth**
– i ffurfio a galluogi'r rhai sydd yn rhannu mewn gweinidogaeth ordeiniedig a lleyg

**Ysgoloriaethau, Ymchwil a Datblygiadau Arloesol**
– i alluogi ac annog meddwl diwinyddol creadigol.

## DMLN Cymru

Mae'r tîm yng Nghymru yn cynnwys tri aelod o staff, sef Luke Curran, Amy Adams a Delyth Wyn Davies. Luke yw Cydlynydd Dysgu a Datblygu Cymru ac mae Amy a Delyth yn gweithio fel Swyddogion Dysgu a Datblygu, gydag Amy yn y de a Delyth yn y gogledd ac yn genedlaethol gyda'r gwaith cyfrwng Cymraeg.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf bu tîm DMLN Cymru yn cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau anwytho a hyfforddi gan gyfrannu at sefydlu timau arbenigol newydd y Cyfundeb ar gyfer y prif feysydd gwaith a nodwyd uchod. Ar yr un pryd bu'r tîm yn cefnogi gweithgareddau yn y meysydd hyn yng Nghymru, er enghraifft cefnogi ymgeiswyr a phregethwyr lleol, darparu hyfforddiant i weithwyr lleyg ym maes teuluoedd, plant ac ieuenctid, a chefnogi a hyrwyddo gwaith ieuenctid megis 3Generate a'r One Programme. Ymhlith y gweithgareddau perthynol i'r eglwysi Cymraeg y mae cefnogi rhaglen Datblygu Ein Galwad Synod Cymru, datblygu deunydd dwyieithog ar gyfer grwpiau bychain yn y cynllun Cwmni Gweddi Caru, a chyfrannu at drefniadau a deunydd dwyieithog ymweliad y Casgliad Gelfyddyd Gyfoes yn Wrecsam yn ystod y flwyddyn nesaf.



Ar ddechrau'r flwyddyn gyfundebol newydd hoffai staff DMLN Cymru dynnu sylw darllenwyr y Gwyliedydd at y math o gyfleoedd a gynigir i eglwysi ac ardaloedd ar gyfer dysgu a datblygu yn 2014-15 o dan benawdau'r prif feysydd gwaith:

## Datblygu Disgyblion

**Cwmni Gweddi Caru**
– sefydlu grwpiau datblygu disgyblion sy'n rhoi cyfle i grwpiau bychain i gyfarfod a myfyrio ar y Beibl a'r byd, gan roi pwyslais arbennig ar rannu cariad Duw yn y byd. Rydym yn bwriadu rhedeg 2 neu 3 grŵp arbrofol yn dwyn yr enw 'ysgolion datblygu disgyblion' yng Nghymru.

**Adnoddau Cwmni Gweddi Caru**
Eleni darperir adnodd dwyieithog o bedwar sesiwn i grwpiau bychain ar gyfer yr Adfent gan DMLN Cymru wedi ei seilio ar garolau traddodiadol y Plygain. Mae'n rhan o gynllun Cwmni Gweddi Caru ond gall unrhyw grŵp sy'n dod at ei gilydd yn ystod tymor yr Adfent ei ddefnyddio.

**Clonc a Sgwrs/Table Talk:**
Gêm sgwrsio sy'n creu cyfleoedd i archwilio rhai o gwestiynau mawr bywyd gyda chyfeillion yw *Table Talk*. Mae amrywiaeth o gemau ar gael yn Saesneg a chyhoeddir *Clonc a Sgwrs* yn Gymraeg yn fuan.

**Taith Gyfnewid Ryngwladol i Ieuenctid:**
Rydym yn awyddus i adfywio'r traddodiad o groesawu pobl ifanc o rannau eraill o'r byd ac anfon pobl ifanc yn ôl gan greu cyfleoedd i bobl ddysgu am fywydau Methodistiaid ifainc ar draws y byd.

## Datblygiad Eglwysig a Chymunedol

**Datblygu Ein Galwad, Synod Cymru:**
Mae staff DMLN Cymru yn cydweithio'n agos â swyddogion Synod Cymru i gefnogi'r rhaglen bedair blynedd sy'n seiliedig ar Ein Galwad, gan ddechrau eleni gyda Dysgu a Gofalu, gan fod ar gael i ddod i ysbrydoli, rhannu syniadau a chefnogi cynlluniau o fewn yr ardaloedd ac eglwysi unigol.

**Ymweliad y Casgliad o Gelfyddyd Gyfoes:**
Bydd casgliad yr Eglwys Fethodistaidd yn ymweld â Wrecsam am 10 wythnos gan ddechrau ar Ionawr 19eg. Darperir gweithgareddau, ymweliadau a gweithdai yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cynhyrchir llyfryn dwyieithog yn olrhain hanes a chysylltiad y casgliad nodedig hwn â Chymru.

**Rhaglenni Hyfforddi Goruchwylwyr:**
Gellir darparu cyrsiau pwrpasol ar gyfer



*Tîm hyfforddwyr Cymru – Delyth Wyn Davies, Amy Adams a Luke Curran*

goruchwylwyr neu swyddogion eglwys fel bo'r angen.

**Digwyddiadau ar gyfer Plant ac Ieuenctid:**
Mae'r DMLN yn cyd-weithio'n agos â Grŵp Gweithredu Gwaith Ieuenctid sy'n hyrwyddo ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru i gyfarfod yn 3 Generate, The Big Sleepover a'r Fforwm Ieuenctid ac i gefnogi ei gilydd trwy rwydweithiau cymdeithasol.

## Datblygu Gweinidogaeth

**Cwrs Pregethwyr Lleol ac Arweinwyr Addoliad:**
Mae staff DMLN Cymru yn rhan o brosiect a fydd yn darparu cwrs newydd ar gyfer hyfforddi'r rhai a alwyd i arwain addoliad ac i bregethu. Bydd y cwrs hwn ar gael yn Gymraeg. Rydym hefyd ar gael i arwain sesiynau mewn Cyfarfodydd Gweinidogion a Phregethwyr.

**Cwrs Dal D'afal**:
Mae'r cwrs hwn ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant ac ieuenctid ac mae ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gellir trefnu cyrsiau penodol ar gyfer anghenion lleol.

**Creu Gofod Mwy Diogel: Modiwlau Sylfaenol ac Arweinwyr ar Ddiogelu**:
Darperir hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn enw'r Eglwys Fethodistaidd gyda phlant a phobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed.

**Encircled with Care:**
Deunydd hyfforddi gan yr Eglwys Fethodistaidd yw hwn ar gyfer Ymwelwyr Bugeiliol. Mae staff DMLN Cymru ar gael i arwain cwrs neu i'ch cefnogi i drefnu cwrs yn lleol.

**Mynegiadau Newydd:**
Darperir digwyddiadau a chyrsiau *Fresh Expressions* ar wahanol lefelau i alluogi'r rhai sy'n dymuno archwilio a yw Duw'n eu galw i waith cenhadol mewn ffyrdd arloesol yn eu cymunedau lleol. Yn yr un modd gellir derbyn hyfforddiant mewn rhai mynegiadau newydd penodol megis Llan Llanast a Chwarae yng Nghwmni Duw.


*Delyth Wyn Davies*

Nid yw'r rhestr uchod yn hollgynhwysfawr ac os oes gennych ddarn o waith neu brosiect yr hoffech ei ddatblygu, neu os hoffech dderbyn gwybodaeth ychwanegol cysylltwch â

**Delyth ar 07799 902576 neu:**
**daviesd@methodistchurch.org.uk**

---

# PLANHIGION Y BEIBL

*W ARVON ROBERTS*

### 69. OLEWYDDEN (Olea europaea)

Ymhen deugain diwrnod agorodd Noa y ffenestr yr oedd wedi ei gwneud yn yr arch...Arhosodd eto saith diwrnod, ac anfonodd y golomen eilwaith o'r arch. Pan ddychwelodd y golomen ato gyda'r hwyr, yr oedd yn ei phig ddeilen olewydd newydd ei thynnu; a deallodd Noa fod y dyfroedd wedi treio oddi ar y ddaear. Genesis 8: 6, 10, 11.

Roedd llawer o olewydd yn tyfu ym Mhalesteina ac roedd y goeden hon yn cael ei hystyried yn bwysig iawn ac yn arwydd o heddwch a chymod. Cyfeirir at yr olewydden ac olewydd dros 30 o weithiau yn yr Hen Destament a'r Newydd. Gall un olewydden gyflenwi digon o fraster i deulu cyfan am flwyddyn, yn lle menyn. Er hynny, pe byddai'n cael ei hesgeuluso ni fyddai'n dwyn ffrwyth. Rhaid iddi dyfu yn agos at y môr er mwyn iddi flodeuo. Blodau bychain o liw melyn gwelw gyda chanolau melyn dyfnach sydd iddi, a'r rhain yn ymhelaethu wrth iddynt agor.

Mae prydferthwch yn perthyn i'r dail llwyd-wyrdd, hir, main. "Lleda'i flagur, a bydd ei brydferthwch fel yr olewydden." Hosea 14:6. Medi a Hydref yw tymor cynaefu'r olewydden, pan ddefnyddir polion hir i guro'r olewydd i lawr o'r canghennau. Mae'r olewydd hyn, sy'n troi'n ddu pan fyddant yn aeddfed, yn cael eu casglu i fasgedi ac yna eu gwasgu gan olwyn fawr o garreg a'r olew




yn llifo i dwb enfawr. Byddai ychydig o olew yn cael ei wasgu ar wahân mewn morter er mwyn paratoi'r olew ar gyfer lampau'r Deml. "Gorchymyn i bobl Israel ddod ag olew pur wedi ei wasgu o'r olewydd ar gyfer y lamp, er mwyn iddi losgi'n ddi-baid". Exodus 27: 20. Yn yr hanes am adeiladu'r Deml, sonnir am Solomon yn darparu "ugain mil o bathau o olew"(rhyw 20,000 galwyn). (2. Cronicl 2:10).

O Fynydd yr Olewydd yr esgynnodd Iesu i'r nefoedd ar ôl atgyfodi yn fuddugoliaethus. Ac meddai Gwenallt:

***Pren y dwyrain yw'r olewydden.***
***Yma yn yr ardd o flaen Eglwys yr***
***Holl Genhedloedd***
***Y mae olewydd, ac yn enwedig un;***
***Perthnasau'r olewydd yng***
***Ngethsemane gynt...***

### 70. ONYCHA (Cistus ladaniferus)



Dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, "Cymer berlysiau, sef stacte, onycha a galbanum, ac ynghyd â'r llysiau hyn, thus pur; cymer yr un faint o bob un, a gwna arogldarth a'i gymysgu fel y gwna'r peraroglydd, a'i dymheru â halen i'w wneud yn bur a chysegredig.

Cura beth ohono'n fân a'i roi o flaen y dystiolaeth ym mhabell y cyfarfod, lle byddaf yn cyfarfod â thi; bydd yn gysegredig iawn gennych..." Exodus 30: 34, 35, 36.

Yr onycha y cyfeirir ato yw rhosyn y graig, sy'n cynhyrchu'r glud a elwir yn labdanum. Mae blodau'r onycha yn dair modfedd llawn ar draws, yn wyn gyda smotyn o liw rhosyn-sgarlad gloyw yn dyfnhau i ddu ar waelod pob petal. Mae ei ganol aur wedi'i lunio o gannoedd o frigerau bychain a phistilau.

Ystyr onycha yn yr iaith Roeg yw "bys-ewin" – sef y marciau sydd ar y petalau. Mae'r llwyn yn dair troedfedd o uchder a thrwy'r holl dymor sych, hir mae'n bentwr o flodau. Mae ei ddail o liw gwyrdd saets tywyll ac yn arogli'n gryf. Mae iddo nodweddion meddyginiaethol pwysig.

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

## Horeb, Llanrwst

**CYMANFA EISTEDDFOD DYFFRYN CONWY**
Nos Sul, Mehefin 22ain cynhaliwyd Cymanfa Ganu Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy yn Horeb. Yr arweinydd oedd ein gweinidog y Parchedig Philip Barnett a'r organydd oedd Mrs Heulwen Morris. Cafwyd eitemau gan ddisgyblion Ysgol Dyffryn Conwy a chymerwyd y darlleniad defosiynol gan Mr Arwel Roberts. Cawsom gymanfa fendithiol iawn.

**BRYSIWCH WELLA**
Anfonwn ein cofion at Mr Ceiriog Jones sydd wedi bod yn yr ysbyty. Ein cofion hefyd at Mrs Marcia Jones sydd wedi cael llawdriniaeth.

**CYDADDOLI**
Cynhaliwyd oedfaon undebol yn Llanrwst gydol mis Awst ac ar Awst 10fed cynhaliwyd yr oedfa yn Horeb dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Philip Barnett.

*Gohebydd – Eira Jones*

## Pisgah, Rhiwlas

**GWELLHAD**
Rydym yn falch iawn fod John Huw Evans yn gwella'n dda. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau ato ac at Heulwen hefyd.

**UN O BLANT RHIWLAS**
Bu farw Dr J. Marshall Yates, a gafodd ei fagu ar aelwyd Mr John Elwyn ac Enid Jones, Bronallt. Efaciwi oedd Marshall, o Lerpwl, ac yn uniaith Saesneg, ond buan iawn y daeth yn rhugl yn y Gymraeg. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen ac wedyn aeth i'r Brifysgol ym Mangor. Roedd wedi ymgartrefu yn Lewes ger Brighton. Byddai yn dod ar ei wyliau bob blwyddyn at Heulwen a John. Mae ein cydymdeimlad yn fawr at ei briod Ann a'r tri mab a'u teuluoedd.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys â Derfel, Sue, Daron a Tomos, a'r holl gysylltiadau teuluol, ar farwolaeth Mrs Dyddgu Pritchard Owens. Bu Dyddgu yn aelod ffyddlon a gweithgar ar hyd ei hoes.

**Dyma ran o deyrnged a roddwyd i Dyddgu yn ei hangladd, gan Mr Arwyn Oliver:**
Ym 1984 y cyfarfyddais â Mrs Owens am y tro cyntaf pan ddechreuais weithio yn Ysgol Llanllechid. Ond fel "Dyddgs" yr adnabyddem hi, ac nid bod yn anghwrtais na digywilydd ydi hynny ond yn hytrach cadarnhau'r cyfeillgarwch a ddatblygodd rhyngom dros y blynyddoedd. Roedd yn wraig ddiwylliedig, egwyddorol ac amryddawn iawn ac yn athrawes reddfol. Roedd disgyblaeth gadarn a theg ganddi yn ei dosbarth a gwir ddiddordeb yn y plant dan ei gofal – yn eu parchu a'u deall, a hwythau yn yr un modd yn ei pharchu hi. Fyddai hi byth yn cwyno – dim ond gweithio'n ddygn o fore tan nos yn creu dosbarth diddorol i'r plant.



Roedd ganddi'r ddawn i wneud i blant ryfeddu a sylwi ar y byd o'u cwmpas. Yn sgil ei diddordeb ym myd natur fe sefydlwyd Clwb Adar yn yr ysgol a hithau ar flaen y gad yn paratoi gweithgareddau ar ôl ysgol i'r plant eu mwynhau. Un arall o'i chryfderau oedd cerddoriaeth ac roedd bob amser yn barod i ymroi i unrhyw dasg a ddeuai i'w rhan boed yn wasanaeth boreol, cyngerdd Nadolig, sioe gerdd neu bantomeim. Rwy'n cofio Eisteddfod yr Urdd yn dod i Fethesda ym 1986 a chynnwrf mawr yn ei sgil. Roedd Sioe y Plant i'w chyflwyno ar thema "Llyfr Mawr y Plant": penderfynwyd o'r cychwyn cyntaf y byddai pob plentyn yn cael bod yn rhan o'r perfformiad, boed fel defaid, hwyaid, ieir neu beth bynnag. Golygai hyn gryn dipyn o waith dysgu canu, actio a pherfformio ond torchi llewys a wnaeth "Dyddgs" gan fwynhau yr hwyl a sicrhau perfformiad llwyddiannus.

...Bu'n aelod ffyddlon a gweithgar o Gymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen. Roedd y traddodiad chwarelyddol yn bwysig iddi hefyd gan fod ei gŵr wedi gweithio yn y chwarel. Doedd dim terfyn ar ei diddordebau ac fe wnaeth gyfraniad sylweddol i Gymdeithas y Chwiorydd Brontë gan ddod yn hyddysg iawn yn eu gwaith. Roedd hefyd wrth gwrs yn fam a nain arbennig iawn. Diolch am gael y cyfle i'w hadnabod ac am ei chyfeillgarwch.

**Ac ychydig eiriau o deyrnged y Parchedig Philip Barnett:**
Roedd hi'n gyfaill ffyddlon, yn agos at ei theulu, yn Wesla i'r carn ac yn Gristion pur. Roedd Dyddgu yn gymeriad yn wir - hoffus, haelionus ei ffordd, diffuant, annwyl. Bydd ein bywydau ni yn dlotach oherwydd marwolaeth Dyddgu - rwy'n sicr y bydd y nefoedd a cherddoriaeth y nefoedd wedi eu cyfoethogi gan ei bod hi yno! Diolch i Dduw amdani.

*Gohebydd – Dilys Parry*

## Tabernacl, Llanfyllin

**COFION**
Anfonwn ein cofion at **Mrs Betty Ellis** sydd yng Nghartref Llwynteg; hefyd at **Mrs Glenys Jones, Waenllys**, a fu yn yr ysbyty'n ddiweddar, ac at **Mr Roger Davies, Gorwel**, sydd wedi derbyn llawdriniaeth ac yn graddol wella gartref. Cydymdeimlwn yn gywir iawn â'n gweinidog, **y Parchedig Gwyndaf Richards**, a gollodd ei frawd yng nghyfraith yn ddiweddar yn Llanbrynmair. Ar yr un pryd cafodd ei chwaer lawdriniaeth – dymunwn wellhad buan iddi.

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Yn dilyn Oedfa Sul Gweithredu Dros Blant fe godwyd £240 er budd yr elusen hon. Y siaradwr gwadd eleni oedd Chris Dunn, swyddog sydd yn gweithio ar y cyd gyda Chyngor Sir Powys. Deallwyd gan Decia Blacker, ein Swyddog Cyswllt yn y Tabernacl gyda'r elusen hon, fod yr ymdrechion dros Gweithredu Dros Blant yn ystod y flwyddyn wedi llwyddo i godi £840 - swm anrhydeddus iawn. Llongyfarchwn Decia am ei gwaith.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchwn ddau o gyn-ddisgyblion Ysgol Sul Undebol Llanfyllin - sef Gerwyn a Rhodri Jones, Yr Ogof. Gerwyn yn ennill Unawd Sioe Gerdd yn Eisteddfod Powys Dyffryn Ceiriog, a Rhodri yn ennill yr Her Unawd yn Eisteddfod Capel Ucha Aberhonddu ac yna yn ennill Y Gân Gelf yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli.

Llongyfarchiadau hefyd i Huw ac Alwena Francis, Penllwyn, a ddathlodd eu Priodas Ruddem ar Awst 16eg.

**DRWS AGORED**
Cafwyd Bore Goffi llwyddiannus iawn yn Festri'r Tabernacl ar ddydd Sadwrn Awst 16eg, pan godwyd £241.73. Diolch i bawb am eu cymorth.

**Y GYMDEITHAS GYMREIG**
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas yng Nghapel Pendref ar Awst 20fed gyda'r Is-gadeirydd y Parchedig Gwyndaf Richards yn llywyddu. Anfonwyd cyfarchion a dymuniadau da'r cyfarfod at y Cadeirydd, y Parchedig Raymond Hughes sydd yn derbyn triniaeth feddygol ar hyn o bryd. Diolchwyd yn gynnes i'r ysgrifennydd a'r trysorydd am eu gwaith cyson a thrylwyr. Bydd y Llywydd a'r Is-lywydd yn parhau â'u gwaith, ond roedd Llinos yn awyddus i gael cymorth gyda'i swydd hi fel ysgrifennydd, ac felly dyma apêl i chi ddarllenwyr yn Llanfyllin i wirfoddoli

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

eich cymorth i Llinos. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth wrth gynnal ein diwylliant yn y fro yma.

*Gohebydd – Robin Hughes*

## Pontrobert

**GWAELEDD**

Dymuniadau gorau am adferiad llwyr a buan. i Ogwyn Davies, Rhosymenyn, sydd gartref ar ôl ei lawdriniaeth yn Ysbyty Stoke a'r Amwythig. Da deall bod Bethan Watkin wedi gwella ar ôl ei llawdriniaeth ac yn ôl yn ei gwaith yn Ysbyty Gobowen.

**LLONGYFARCHIADAU**

Mae amryw sydd â chysylltiad â'r capel wedi bod yn llwyddiannus yn eu harholiadau - Hannah Parry, Sioned Watkin ac Elen Jones. Pob dymuniad da i'r dyfodol. Llongyfarchiadau i Gerwyn a Rhodri Jones ar eu llwyddiant eisteddfodol.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

## Ardal Bathafarn

**CYFARFODYDD UNDEBOL**

Cafwyd Gwasanaeth Sul y Beibl hyfryd iawn yn Eglwys Llanfwrog. Gwefreiddiol iawn oedd cyfraniad band "Jig-so" o Eglwysi Llanfwrog a Llanrhydd. Cafwyd anerchiad gan y Rheithor, y Parchedig Stuart Evans a diolchwyd i bawb gan Elizabeth, Bathafarn.

Yn ôl ein harfer hefyd, daethom at ein gilydd i gyd-addoli yn y gwahanol Eglwysi ym mis Awst. Y Parchedig Tom Evans-Williams, Henllan, oedd cennad Bathafarn eleni. Bu Elwyn Ashford Jones yn pregethu yn Rehoboth, Corwen, a daeth aelodau Capel Seion ynghyd yno i gyd-addoli.

**GWIBDAITH**

Llawer o ddiolch i Rhian Hughes, sydd wedi bod yn brysur yn trefnu taith flynyddol Capel Bathafarn. Bydd y daith eleni i Cheltenham a Chaerloyw.

**DATHLU**

Llongyfarchiadau calonnog i Audrey a Llew, Wern Ddu, ar ddod yn hen daid a nain i Harri Siôn, mab Owain a Siân, Cynwyd.

**PROFEDIGAETH**

Estynnwn ein cydymdeimlad at Gwyn, Llanbedr, a'r teulu o golli brawd yng nghyfraith ac ewythr yn ddiweddar. Hefyd ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Barchedig G.R. Jones, Rhosllannerchrugog. Bu yntau ynghyd â'i fab, Tegid, yn hynod ffyddlon gan gynnal gwasanaethau yn Ardal Bathafarn.

*Gohebydd – Elizabeth Jones*

## Bethel, Y Creunant

**ER COF AM ELLIS WYN JENKINS**

Ym mis Mai collodd Bethel aelod ffyddlon iawn, sef Ellis Wyn Jenkins. Roedd Ellis yn un o naw o blant a fagwyd yn y capel. Roedd yn gyhoeddwr ac ef hefyd oedd gohebydd y capel, a phob un yn edrych ymlaen at ddarllen ei newyddion. Cymaint o barch oedd iddo, roedd Bethel yn orlawn ar ddydd ei angladd. Ymysg y galarwyr roedd cynrychiolwyr o gyn filwyr Normandi, gan fod Ellis yn un ohonynt. Roedd y gwasanaeth o dan ofal ein gweinidog, y Parchedig Ddr. Ian Morris, a roddodd deyrnged ddwys iawn iddo. Siaradodd Owen, mab ieuengaf Ellis, yn rhoi hanes ei fywyd a rhai storïau doniol iawn, a phawb yn clapio ar y diwedd. Ein cydymdeimlad â Margaret ei weddw, ei blant Steffan, Owen, Lisa a'u teuluoedd, a hefyd ei chwaer Lucy. Gwelwn ei eisiau yn fawr.

**SWYDDOGION NEWYDD**

Mae'n dda cyhoeddi fod aelodau iau yn ymgymryd â gwahanol swyddi yn y capel. Dymuniadau gorau i Mrs Euryl Thomas, y Trysorydd newydd, ac i Mrs Elisabeth Davies sydd wedi derbyn swydd yr Ysgrifennydd gan ddilyn Mr Ellis Morgan a wnaeth ei ran am dros ddeng mlynedd ar hugain.

**GWEDDI**

Ym mis Mehefin, cynhaliwyd Cwrdd Gweddi yng Ngodre'r Rhos, o dan ofal Eglwysi Rhyddion y Creunant. Roedd nifer o aelodau Bethel yn bresennol a phawb wedi cael bendith yn yr oedfa.

**DYMUNIADAU GORAU**

Cofion at Mrs Margaret Gibbins sydd yn parhau yn gaeth i'w chartref; dymunwn yn dda hefyd i Philip ei mab, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ystod yr haf. Ein cofion at Miss Lucy Jenkins sydd yn dioddef afiechyd ac at Mrs Mair Powell mewn cartref nyrsio.

**LLWYNYRONNEN**

Teithiodd nifer o aelodau Bethel i Trap ar gyfer gwasanaeth olaf Capel Llwynyronnen. Er ei fod yn achlysur trist, cawsom wasanaeth hyfryd iawn gan ein gweinidog, y Parchedig Ddr. Ian Morris.

*Gohebydd – Eirwen Rosser*

## Eglwys Unedig Colwyn

**PRIODAS**

Ar 16 Awst 2014 yng nghapel Mynydd Seion, Abergele, priodwyd Mari Angharad, merch Mr Richard Waters a'r ddiweddar Mrs Angharad Waters a Dafydd Arfon, mab Gwen ac Arfon Williams, Hen Golwyn. Mae Mari yn athrawes yn Ysgol Glan Morfa, Abergele, a Dafydd yn yr Heddlu yn Ynys Môn. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Ifor ap Gwilym gyda Mrs Annwen Jones wrth yr organ. Alison Pimblott oedd y forwyn briodas ac Adam Cain a Sean Edwards yn weision priodas. Hefyd bu Iolo ac Efa, nai a nith Dafydd, yn was a morwyn bach. Dymuniadau gorau i'r ddau.

**GWASANAETH UNEDIG**

Cynhaliwyd oedfa unedig yn Horeb, Bae Colwyn, ar 24 Awst. Diolch i'r Parchedig Arglwydd J Roger Roberts am ei wasanaeth a hefyd i Mr Gwyn Jones am ei waith wrth yr organ.

*Gohebydd – Rhiannon Jones*

## Shiloh, Tregarth

**CYDYMDEIMLO**

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Mrs Iris Harper, Geraint ac Arwyn a'r teulu oll ym marwolaeth Mr Eric Harper.

**LLWYDDIANT**

Llongyfarchwn Joshua, Elin a Gwenno, Tomos, Annest a Gwynfor ar eu llwyddiant mewn arholiadau yr haf hwn.

**CARTREF NEWYDD**

Pob dymuniad da i Gwenda a Glyn yn eu cartref newydd yn Llanfairpwll. Da yw deall y bydd Gwenda'n parhau i addoli yn Shiloh er na fydd yn byw yn Nhregarth mwyach – ac yn parhau i ysbrydoli ein plant yn yr Ysgol Sul.

*Gohebyddion – G.D. ac Ff.R.*

## Salem, Rhyd-y-foel

**PRIODAS**

Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 5ed a'r tywydd yn eithriadol o braf, gyda'r Parchedig Tudur Rowlands yn gweinyddu, priodwyd Amanda Jayne Roberts, merch Gwyndaf a Carol Roberts, Bron Haul, a William Ellis Jones o Lanfairfechan. Cyrhaeddodd Amanda a'i thad y capel mewn modd unigryw iawn sef mewn bwced Jac Codi Baw!! Dymunwn y gorau i'r pâr ieuanc yn eu bywyd priodasol.

*Gohebydd – Siân Price*

## Bethel, Rhiwbeina, Caerdydd

**CYDYMDEIMLO**

Ar ddechrau mis Gorffennaf bu farw Margaret Turner yn 90 oed. Roedd wedi bod yn aelod ffyddlon ym Methel nes i afiechyd ei rhwystro rhag mynychu'r gwasanaethau. Cynhaliwyd ei hangladd yn y capel ar 16 Gorffennaf gyda'r gweinidog, y Parchedig Evan Morgan, yn gwasanaethu. Collodd Catrin Jones ei mam hefyd yn ystod yr haf. Cydymdeimlir â'r teuluoedd hyn yn eu colled

*Gohebydd: Gwilym E Roberts*

# Y Gorau-ERIOED

gan EURON HUGHES

### NIL SATIS NISI OPTIMUM
### – Dim ond y gorau sydd yn bodloni

Motto'r clwb pêl droed anhygoel o lannau Mersi. Motto da ar gyfer bywyd yn ogystal â chlwb pêl droed Everton.

Wrth i'r haf ddod i ben a thymor pêl droed newydd yn dechrau, rwyf yn edrych yn ôl ar yr haf a meddwl am dwrnamaint Cwpan y Byd anhygoel a welwyd ym Mrasil. Y gorau erioed meddai llawer o bobol a dwi'n ei gweld hi'n anodd dadlau. Mae gan bob cefnogwr pêl droed ei hoff dwrnamaint cwpan y byd. Bues i a fy nhad yn ddigon ffodus i gael mynd i ffeinal cwpan y byd yn 1998 (efallai gwnaf sôn am hynny rywbryd eto) ond mae'r atgofion plentyn sydd gennyf am gwpanau'r byd yn '82 a '86 wedi eu hoelio i'm cof, ac enwau fel Zico, Socrates, Platini, Laudrup a Maradona yn dal ar flaen fy nhafod. Atgofion melys nad ydynt yn pylu.




Cwpan y byd ym Mrasil a buddugoliaeth gwbl haeddiannol yr Almaen. Beth fydd ein hatgofion o'r twrnamaint yma? Gemau cyffrous? Enwau chwaraewyr? Cweir 7-1 a roddwyd i Frasil? Nifer o atgofion...ond tybed beth aiff yn angof?

Cyn i'r gystadleuaeth ddechrau ym mis Mehefin roedd y cyfryngau i gyd yn bla o straeon ac adroddiadau o anniddigrwydd mawr gan drigolion Brasil. Roedd y protestiadau am nifer o bethau: diffyg addysg, diffyg tai, diffyg gwasanaeth iechyd. Yr oedd siwtiau parchus FIFA yn awyddus i sylw pawb fod ar y carnifal lliwgar o bêl droed oedd ar fin cychwyn. Ond beth am y swm anferthol a oedd yn cael ei wario ar gaeau pêl droed, ar draul y tlodion? A beth am yr honiadau o lygredd ariannol?

Yn rhyfedd iawn, wedi i'r twrnamaint ddechrau diflannodd y sôn am gyflwr y wlad a'r protestiadau o'n sianeli teledu. Nid yw hyn yn unigryw i bêl droed, chwaith. Pan oedd y gemau Olympaidd yn Tsieina ychydig flynyddoedd yn ôl roedd yna lawer ar y cyfryngau am record hawliau dynol truenus Tsieina a'r ffordd roeddent yn trin Tibet - ond unwaith i'r gemau ddechrau ac yn sicr ar ôl i Brydain ennill ei medal gyntaf - roedd y sôn am Dibet a hawliau dynol wedi diflannu. Tybed a oedd yr hen Juvenal yn gywir "Bara a Syrcasau!"?

Nid felly roedd pêl droed yn y cychwyn. Cychwynnwyd Manchester City, Spurs, Fulham, Aston Villa, Everton a llawer mwy fel timau pêl droed ysgolion Sul, fel ffordd i helpu pobol ifanc a'u cadw rhag mynd ar gyfeiliorn. Mae rôl y Wesleaid yn cychwyn Aston Villa a'r dylanwad ehangach ar bêl droed yn un enfawr. A fuasai'r arloeswyr hyn yn adnabod y gêm heddiw?

Yn sicr buasai'r pres a'r llygredd yn ddieithr – ond mae nifer o glybiau yn parhau i helpu eu cymunedau. Yn y 70au ar 80au roedd Peter Hart yn amddiffynnwr caled gyda Huddersfield Town ac yna Walsall. Bellach mae o yn ficer yn Cannock. Mae hefyd yn gaplan i CPD Walsall ac yn cynghori hogia ifanc ynglŷn â themtasiynau sy'n wynebu dynion ifanc. Felly mae gan bêl droed ei rinweddau - er gwaetha ei eithafion!

Ac felly beth fydd ein hatgof mwyaf o gwpan y byd Brasil 2014? I mi, o leiaf, un llun fydd yn llosgi yn fy nghof. Yn ystod y gêm derfynol rhwng yr Almaen a'r Ariannin, y llun anhygoel o'r cerflun enwog uwchben Rio, sef IESU'R IACHAWDWR. Yn ystod y twrnamaint gwelwyd y gora a'r gwaetha o ddynoliaeth. Gwelwyd twyll, gwelwyd llygredd a cham-drin. Ond hefyd gwelwyd pobl y byd yn dod at ei gilydd i ddathlu a mwynhau mewn ysbryd o frawdgarwch y gamp ora yn y byd. Ac uwchlaw hyn, yn edrych i lawr ar bopeth oedd yn digwydd, y cerflun anhygoel yna.

A beth ddaeth i'm meddwl ond geiriau'r emyn enwog:

"Er mai o ran yr wy'n adnabod
Ei fod uwchlaw gwrthrychau'r byd."

# COLOFN GERDD gan GARETH BLAINEY

### RAVEL A'R RHYFEL MAWR

Y Ffrancwr Maurice Ravel (1875-1937) oedd un o gyfansoddwyr cerddoriaeth glasurol mwyaf blaenllaw blynyddoedd cynnar y ganrif ddiwethaf. Mae o'n cael ei gofio'n bennaf am 'Boléro' – gwaith i gerddorfa oedd yn fale i ddechrau. Gwnaeth poblogrwydd mawr y darn Ravel yn fyd-enwog ond ddeuddeng mlynedd cyn y perfformiad cyntaf ym Mharis ym mis Tachwedd 1928 roedd o'n ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf neu'r Rhyfel Mawr (1914-18).

Ym mis Mawrth 1916 cafodd ei anfon i Ffrynt y Gorllewin yn Verdun yng Ngogledd-orllewin Ffrainc. Yno bu'n gyrru tryc oedd yn cludo cyflenwadau petrol i'r ffrynt yn ystod un o frwydrau hiraf a mwyaf gwaedlyd y rhyfel. Roedd y gwaith hwn yn hynod o beryglus : yn ôl Ravel bu'n gyrru'n gyson gyda'r nos heb oleuadau ar ei dryc gan wybod yn iawn y gallai gynnau byddin yr Almaen geisio ei saethu'n farw. Daeth un o'r teiars oddi ar y tryc mewn coedwig a bu'n rhaid iddo guddio am rai dyddiau cyn cael ei achub.

Ar ôl cael ei achub chwalwyd gobeithion Ravel o ymuno ag awyrlu Ffrainc am yr eildro oherwydd bod nam ar ei galon. Cafodd ei gais gwreiddiol i fod yn beilot ei wrthod oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn rhy fyr ac yn rhy hen. Tua 5 troedfedd 3 modfedd oedd ei daldra ac roedd o'n 39 pan ddechreuodd y rhyfel ym mis Gorffennaf 1914.

Erbyn hynny roedd wedi dechrau llunio cyfres o ddarnau i biano - 'Le Tombeau de Couperin' (Carreg Fedd Couperin) ac fe gwblhaodd y gwaith sydd â chwe symudiad yn 1917.

Cyfansoddwr o Ffrainc o'r ddeunawfed ganrif oedd François Couperin a chyflwynodd Ravel bob un o'r symudiadau er cof am ffrindiau a laddwyd yn y rhyfel.

Cafodd ei brofiadau yn agos at faes y gad effaith andwyol ar ei iechyd. Bu'n dioddef o insomnia, yn ystod ei gyfnod yn Verdun ac am weddill ei fywyd. Yn ei flynyddoedd olaf cafodd glefyd a effeithiodd ar ei ymennydd ac ychydig cyn ei farwolaeth dywedodd Ravel:

'Mae gen i lawer mwy o gerddoriaeth yn fy mhen'.

## NEWYDDION DIOGELU

Yn ystod misoedd Medi a Hydref mae Synod Cymru yn cymryd rhan yn y broses Gyfundebol o Adolygu Hen Achosion Diogelu. Mae gan y broses ddau amcan:

1. Dysgu gwersi o'r gorffennol ar gyfer y dyfodol.
2. Ystyried a oes achosion lle mae angen mwy o waith nawr.

Mae'n bwysig pwysleisio nad proses ar gyfer gweinidogion yn unig mohoni. Gofynnir i unrhyw un sydd â gwybodaeth am unrhyw achos diogelu oddi mewn i'r Eglwys ers 1950 gyfrannu at y broses trwy rannu eu gwybodaeth. Cynhaliwyd cyfarfod yn Wrecsam yn ddiweddar pan roddwyd mwy o fanylion i Arweinwyr yr Ardaloedd a'r gweinidogion. Os oes gennych chi wybodaeth i'w rhannu, mae ffurflenni ar gael (Cymraeg a Saesneg) ar wefan Synod Cymru, neu a wnewch chi gysylltu â fi, y Parchedig Jennie Hurd, neu unrhyw Arweinydd Ardal neu weinidog.

Rydym yn deall ei bod hi'n gallu bod yn anodd ail-fyw profiadau poenus, ac mae cefnogaeth ar gael tu fewn a thu allan i'r Eglwys. Os ydych yn teimlo bod angen cymorth arnoch, a wnewch chi gysylltu â fi, Jennie, eich Arweinydd Ardal neu unrhyw weinidog.

Diolch am bob cydweithrediad yn y mater pwysig hwn o hyrwyddo ymrwymiad yr Eglwys i greu lle diogel i blant a phobl fregus.

**Y Diacon Stephen Roe**
**(Swyddog Diogelu Synod Cymru)**
**01248 717084 stephen.roe@methodist.org.uk**

## GWEITHREDU DROS BLANT

**CYFRANIADAU – Gorffennaf / Awst 2014**

| | |
|---|---|
| De Gwynedd | £200-00 |
| St Paul, Aberystwyth | 38-05 |
| Dienw | 25-00 |
| Llanelwy a Dinbych, Sul Gweithredu dros Blant | 80-00 |
| Croesoswallt, Sul Gweithredu dros Blant | 130-00 |
| Capel Bethel, Mynydd y Fflint | 50-00 |
| Mr Desmond Owens, Mynydd y Fflint | 5-00 |
| Miss Megan Roberts, Bebington | 40-00 |
| Eleri, Mynydd y Fflint | 5-00 |
| Delyth, Mynydd y Fflint | 35-00 |
| Cyfanswm | £608-05 |

Tra'n diolch yn fawr iawn am bob cyfraniad, a gaf i ofyn yn garedig i'r Eglwysi/Ardaloedd hynny sy'n anfon eu casgliadau i brif swyddfa Gweithredu dros Blant anfon nodyn ataf i ddweud hynny ac i nodi y swm a anfonwyd. Byddai hynny yn fy ngalluogi ar ddiwedd blwyddyn i gyhoeddi faint yn hollol y mae eglwysi Cylchdaith Cymru yn ei gyfrannu tuag at Gweithredu dros Blant.

*Gyda diolch ymlaen llaw, Robin*

***Robin Jones, Cyswllt Synod Cymru, Gweithredu dros Blant ac Aelod o Bwyllgor Cymru, Gweithredu dros Blant***

**Y Cadeirydd yn ymweld â'r gwahanol Ardaloedd**

| **Hydref** | | **Tachwedd** | |
|---|---|---|---|
| 5 | Dyffryn Clwyd | 2 | Glannau Meirion a Dyfi |
| 12 | Bathafarn | 9 | Ar gael |
| 19 | Y Trallwng | 23 | Dyffryn Clwyd |
| 26 | Ar wyliau | 30 | Dyffryn Clwyd |
| 31 | Ardal Ceredigion | | |

***Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl***

# Defosiwn

gan y Parchedig MATRIN EVANS-JONES

### GŴYL YR HOLL SAINT

**"Am hynny, y maent o flaen gorsedd Duw, ac yn ei wasanaethu ddydd a nos yn ei deml, a bydd yr hwn sy'n eistedd ar yr orsedd yn lloches iddynt. Ni newynant mwy ac ni sychedant mwy, ni ddaw ar eu gwarthaf na'r haul na dim gwres, oherwydd bydd yr Oen sydd yng nghanol yr orsedd yn eu bugeilio hwy, ac yn eu harwain i ffynhonnau dyfroedd bywyd, a bydd Duw yn sychu pob deigryn o'u llygaid hwy." (Llyfr y Datguddiad, 7:15-17).**

Mae llyfr y Datguddiad, gan y gweledydd Ioan, yn ddatguddiad o'r gwirionedd tu ôl i'r byd hwn, sef, er gwaethaf yr helbulon mawr sydd yn blino'r byd cyfoes, ac wedi blino ein holl hanes fel dynolryw, mai Duw sydd wrth y llyw ac y bydd ei saint ef yn fuddugol drwy'r cwbl.

Mae'r ffyddlon rai sydd wedi mynd o'n blaenau ym mhresenoldeb y Duw byw ac yn gweddïo trosom. Mae Duw yn eu cysgodi hwy. Ni fyddant yn newynu nac yn sychedu mwyach. Bydd yr Oen (sef Iesu ein Hiachawdwr) yn eu bugeilio a'u harwain, a bydd Duw yn sychu pob deigryn o'u llygaid hwy. Dyna'r ffydd sydd yn ein cynnal.

Yn ystod y cyfnod echrydus yn hanes Chile pan sathrwyd ar ymgyrch y werin am iawnderau dynol, llofruddiwyd eu harweinydd poblogaidd Allende trwy orchymyn y Cadfridog Pinochet. Cymerodd y fyddin reolaeth ar y wlad a chymerwyd llawer o'r bobl i'r ddalfa a'u harteithio'n ddifrifol hyd at farw. Nid yw eu teuluoedd yn gwybod hyd heddiw beth ddigwyddod i'w cyrff. Roedd y bobl yn byw mewn ofn parhaus.

Ond sylweddolai esgobion yr Eglwys Gatholig yn Chile y gallai gwasanaeth gwyrthiol y Cymun Sanctaidd fod yn gyfrwng, nid yn unig i greu cymdeithas wahanol, ond i ddod â gwirionedd amgenach i'r wyneb – sef mai'r Duw byw sydd yn rheoli ac y bydd ei saint yn fuddugoliaethus drwy'r cwbl. Y gwasanaeth cymun oedd y gwrthwenwyn effeithiol i'r arteithio dieflig oedd yn mynd ymlaen. Roedd yn rhoi gwirionedd arall, mwy sylweddol i'r credinwyr ymaflyd ynddo yng nghanol y creulondeb oddi allan. Y Cymun Sanctaidd oedd yr allwedd i'r gwirionedd hwnnw.

Wrth gasglu o gwmpas bwrdd y cymun a chodi cwpan ei waed Ef a rhannu yn ei gorff, bara'r bywyd, gyda'n gilydd, deuwn i mewn i gymdeithas y saint, sydd o'n cwmpas ni yn ein calonogi a magwn nerth i ddal ati ac i goncro pob gelyn sydd yn ein bygwth.

Fel aelodau o gorff Crist cawn ninnau nerth i wrthsefyll gorthrymderau yr oes hon. Oni chanodd yr emynydd Ehedydd Iâl yng nghanol y storm,"Mae Craig yr Oesoedd dan fy nhraed a'r mellt yn diffodd yn y gwaed".

"O Dduw, dyro inni'r nerth i gario 'mlaen, yn llawen dy fod Ti o hyd wrth law. Amen".

Wrth chwilio am hanes capeli Wesle Cymraeg Llundain mae prinder gwybodaeth ynglŷn â Chapel Chiltern Street. A gyhoeddwyd taflen neu ysgrif, hwyrach, pan gafodd ei ailadeiladu ar ôl y rhyfel? Bydd pob gwybodaeth yn dderbyniol iawn.

Anfoner at jrogerroberts@aol.com Diolch yn fawr iawn.

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

## Bethel, Prestatyn

**ER COF AM MRS LILIAN ROBERTS**

Gyda thristwch mawr y cofnodwn farwolaeth Mrs Lilian Roberts, a hunodd yn dawel yn ei chartref ar Gorffennaf 9fed yn 90 mlwydd oed. Daeth Lilian yn aelod ym Methel yn 1970 pan ddaeth ei gŵr, y Parchedig Clifford Roberts, yma yn weinidog. Cynhaliwyd gwasanaeth i gofio a diolch am ei bywyd ar Orffennaf 19eg ac yn ôl ei dymuniad, arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Thomas Evans Williams, cyfaill i'r teulu, gyda chymorth y Parchedigion Jennie Hurd, Trefor Lewis, Bryn Jones, Roger Roberts, Cledwyn Parry ac E H Griffiths a Mrs Dilys Jones. Nid oedd Lilian yn dymuno cael teyrnged yn ei gwasanaeth angladdol, ond serch hynny cafwyd teyrnged gerddorol gan Trystan Llŷr Griffiths gyda datganiad gwefreiddiol o'r gân 'Anfonaf Angel'.


Mae gan lawer atgofion am Lilian - rhai yn ei chofio fel merch ifanc dalentog a cherddorol yn ei chartref - Bryn Pistyll, Llangynog. Roedd yn organydd o oedran ifanc iawn yng nghapel Wesle Carmel a'i thad yn Arweinydd y Gân yno. Cafodd yrfa ddisglair ar ôl gadael ysgol y pentref gan astudio yn Ysgol Ramadeg Llanfyllin ac yn y Coleg Normal, Bangor. Mae eraill yn ei chofio fel athrawes annwyl a chydwybodol ym Mhenybontfawr, Llanfair Caereinion, Wrecsam a Betws yn Rhos. Mae'n debyg fod llawer ohonom yn ei chofio fel gwraig gweinidog weithgar a chefnogol ac yn gwneud cacennau i'r aelodau mewn oed a'r cleifion!

Er iddi golli ei gŵr yn 1978 ac yntau yn ddim ond 49 mlwydd oed, ni ddangosodd ddim chwerwder yn dilyn y brofedigaeth, dim ond gwerthfawrogiad am yr amser a gawsant gyda'i gilydd. Bu Lilian yn aelod gweithgar a ffyddlon yn yr Eglwys Fethodistaidd ar hyd ei hoes ac roedd hi'n arbennig o deyrngar i'r achos yma ym Methel - yn organydd a blaenor.

Roedd yn fam ofalus a chariadus i'w mab Geraint a'i merch yng nghyfraith Angela, yn nain falch i Ffion, Daniel a Manon, yn hen nain i Alaw, Alys, Bethan ac Ifan ac yn chwaer annwyl i Tecwyn, Jack a Rhoda. Anfonwn ein cydymdeimlad dwys i'r teulu. Melys yw y cof amdani.

**LLONGYFARCHIADAU**

Llongyfarchwn Lowri a Hannah ar eu llwyddiant yn yr arholiadau AS a Lefel A. Mae Lowri yn parhau yn Ysgol Maes Garmon a Hannah yn mynd i Brifysgol Lerpwl. Dymuniadau gorau iddynt.



*Lowri a Hannah*

**Y GYMANFA GANU GYD ENWADOL**

Roedd yn bleser mawr croesawu ffrindiau o eglwysi eraill ar gyfer y Gymanfa eto eleni. Arweiniwyd y gweithgareddau gan Mrs Mairwenna Lloyd, Clwyd Street. Mrs Angela Roberts oedd arweinydd cyfarfod y prynhawn a Mr Geraint Roberts yn yr hwyr. Agorwyd cyfarfod y prynhawn gan blant Hyfrydle, Betws yn Rhos, ac aelodau o Gapel Ebeneser, Rhuddlan, a agorodd gyfarfod yr hwyr. Diolch yn fawr i bawb am eu gwaith ac am ganu mor ardderchog.

**CYMANFA YSGOLION SUL**

Mwynhawyd cyfraniadau gan nifer o Ysgolion Sul yn ein cymanfa eleni. Gan blant Bethel cafwyd hanes eu gwaith yn yr Ysgol Sul eleni - gwelsom luniau, gwaith crefft a chlywsom ganeuon a darlleniadau o'r prosiect ar Borthi'r Pum Mil. Yn ystod y Gymanfa fe gyflwynwyd tystysgrifau a medalau i'r plant a gasglodd arian at y genhadaeth dramor.

**SUL RHODD**

Yn ein cyfarfod blynyddol eleni, fe benderfynwyd cynnal Sul Rhodd er mwyn codi arian ar gyfer gwaith adnewyddu ar yr adeilad a'r Tŷ Capel. Diolch yn fawr iawn i'r holl aelodau a chyfeillion a gyfrannodd mor hael.

**JAMBORI YR HAF**

Daeth tymor yr Ysgol Sul i ben gyda Jambori ddiwedd mis Gorffennaf. Arweiniwyd y gymanfa gan Mrs Angela Roberts a chafodd y plant a'r oedolion lawer o hwyl gyda'r symudiadau a'r canu. Ar ddiwedd y gwasanaeth mwynhawyd sglodion a chŵn poeth.

**BRYSIWCH WELLA**

Anfonwn ein cofion at Mr a Mr Rhys Jones, Mrs Joyce Parry, Mrs Gwen Williams, Rhys Wyn Thomas a phawb sydd yn methu mynychu'r oedfaon ar hyn o bryd.

## St. Paul, Aberystwyth

**ER COF AM GWYNETH SUMPTION**

Gyda marwolaeth Mrs Gwyneth Sumption ar 20 Gorffennaf yn 95 mlwydd oed collwyd aelod annwyl o gynulleidfa St Paul. Cafodd Gwyneth ei geni yn Aberystwyth. Roedd yn gyfnither i'r diweddar Mr Richard Isaac a chafodd y ddau eu magu yng nghapel Siloam, Aberystwyth. Ar ôl priodi â Mr John Macdonald symudodd Gwyneth a'i gŵr gyda'u merch fach June i Lundain. Wedi rhyw 30 o flynyddoedd yn Llundain bu farw ei gŵr a symudodd Gwyneth yn ôl i Aberystwyth. Dechreuodd ddysgu dawnsio neuadd a thrwy hynny cyfarfu â'r diweddar Mr Bert Sumption a ddaeth yn ail ŵr iddi. Arhosodd Gwyneth yn ei chartref yn Heol Alun, Waunfawr hyd at 15 mis yn ôl pan symudodd i'r cartref preswyl Methodistaidd, Hafan y Waun. Mae ei theulu yn ddiolchgar iawn am y gofal cariadus a gafodd Gwyneth yn ei misoedd olaf. Cynhaliwyd gwasanaeth angladd yn yr Oruwchystafell yng Nghanolfan St Paul ar 28 Gorffennaf dan arweiniad y Parchedig James Patron Bell gyda chymorth y Diacon Sarah Windsor-Hides, Caplan Hafan y Waun. Derbyniwyd cyfraniadau at Hafan y Waun er cof amdani. Fel aelodau St Paul anfonwn ein cydymdeimlad at June a'r holl deulu.

**GWASANAETHAU**

Yn ôl yr arfer yn Aberystwyth ym mis Awst trefnwyd gwasanaethau unedig eleni i holl gapeli'r dref. Cynhaliwyd y gwasanaethau bore a hwyr ar ddydd Sul 24 Awst yng Nghanolfan St Paul, dan arweiniad y gweinidog Presbyteraidd, y Parchedig R O Roberts, Nefyn. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r aelodau hynny o St Paul a weithiodd mor galed i sicrhau bod popeth yn mynd yn esmwyth trwy gydol y dydd.

Y Sul canlynol, cynhaliwyd y gwasanaethau unedig yng nghapel y Bedyddwyr, Bethel. Roedd oedfa'r bore dan ofal Cadeirydd Synod Cymru, y Parchedig Jennie Hurd. Daeth Constanza Pulgar Bart, sy'n ymweld â Synod Cymru, gyda hi. Cytunodd Constanza i ddarllen o'r Testament Newydd. Gan mai dim ond yn ddiweddar mae hi wedi dechrau dysgu'r iaith, roedd sefyll ym mhulpud enfawr Bethel a darllen yn y Gymraeg yn dipyn o her iddi. Derbyniodd gymeradwyaeth gynnes a haeddiannol oddi wrth y gynulleidfa.

*Gohebydd - Lionel Madden*

## Ebeneser, Dolgellau

**LLONGYFARCHIADAU**

I Llŷr a Federica o Taunton, Gwlad yr Haf, ar enedigaeth mab, Ilan Eric Peter, ar Awst 15fed, brawd bach i Mali Diana. Llŷr yw'r ieuengaf o hogiau teulu Glan Rhyd, Dolgellau.

***parhad o Ebeneser, Dolgellau***

**GWELLHAD**

Dymunwn yn dda i Mrs Olwen Davies, Llys Meurig, sy'n ymdrechu'n galed yn erbyn rhwystrau iechyd. Hefyd llawenhawn fod ei hwyres, Sarah, a fu'n wael iawn, wedi llwyddo yn ei Lefel A ac yn mynd i'r Brifysgol ym Mryste.

**MARWOLAETH**

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Gwen Owen, Tryfan, ar 1af o Awst yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth. Bregus fu iechyd Mrs Owen yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ni allai fynychu'r capel ond parhaodd ei diddordeb ynddo a'i aelodau hyd y diwedd. Cydymdeimlwn â'r teulu a'r cysylltiadau oll yn eu colled fawr.

*Gohebydd Gwyneth Meredith*

## Ebeneser, Eglwysbach

**LLONGYFARCHIADAU**

Llongyfarchiadau i Gwenfair Hughes sydd wedi ennill gradd B.A. mewn Cymraeg/ Drama ac Astudiaethau Theatr. Hefyd i Caradog ar ei lwyddiant yn yr arholiadau Lefel A ac i Miriam gyda'r TGAU. Pob hwyl i Siriol sydd yn dechrau cwrs gradd mewn Dylunio 3D ym Mhrifysgol Manceinion.



*Gohebydd - Charles Crapper*

## Ebeneser, Caernarfon

**DIOLCH**

Mae Merfyn a Mary Christine Jones yn diolch yn fawr i'r ffrindiau a fu'n ymweld â hwy yn ystod yr wythnosau diwethaf. Diolch am y cardiau a'r galwadau ffôn yn ogystal. Y cyfan yn gysur iddynt tra'n gaeth i'w cartref.

**DYMUNIADAU GORAU**

Anfonwn ein cofion at Betty Pritchard sydd ar hyn o bryd yn disgwyl triniaeth bellach yn Ysbyty Glan Clwyd.

**ER COF AM DOROTHY PRITCHARD**

Yn dilyn cystudd blin, bu farw Dorothy Pritchard. Arweiniwyd y gwasanaeth angladdol gan ein gweinidog y Parchedig Gwynfor Williams a thalwyd teyrnged i'w fam gan ei mab Haydn. Roedd Dorothy yn rhan annatod o urdd chwiorydd Ebeneser. Gweithgar tu hwnt, ffyddlon i bob achlysur. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod Eirwyn Pritchard, Wendy a Haydn a'r teulu oll.

**GŴYL BREGETHU**

Ein pregethwr gwadd eleni ar 5 Gorffennaf oedd y Parchedig John Gwilym Jones. Hyfryd oedd cael cyfle i'w groesawu ef a'i briod, ynghyd ag aelodau o'n chwaer eglwys yn Nhy'n Lôn a chyfeillion eraill.

**BORE COFFI**

Trefnwyd bore coffi a stondinau llwyddiannus ar 28 Mehefin. Bore llawn bwrlwm.

**LLONGYFARCHIADAU**

Pob dymuniad da i Rhys, mab John a Gwenno Hughes, sydd wedi ei benodi i swydd gyda Gwasanaeth Gwella ac Effeithiolrwydd Addysg Gogledd Cymru. Llongyfarchiadau i'r holl bobl ifanc sydd wedi llwyddo mewn arholiadau allanol. Dymuniadau gorau hefyd i Dylan Pritchard, ŵyr Myfi Powell Jones, sydd yn ymgymryd â swydd dysgu yn yr Eidal.




**PEN-BLWYDD ARBENNIG**

Ganol Awst bu dathlu brwd yng nghartref Merfyn Roberts. Dathlu ei ben-blwydd yn naw deg mlwydd oed. Yn anffodus nid yw'n gallu dod i'r capel fel cynt. Gwerthfawrogwn ei ffyddlondeb ar hyd y blynyddoedd a'r gwasanaeth amhrisiadwy a gyflawnodd yn Ebeneser.

*Gohebydd – Branwen Edwards*

# O'R PEN YMA



gan ANGHARAD TOMOS

Eleni, mae deugain mlynedd wedi mynd ers record hir Endaf Emlyn, *Salem*, a bu cryn sylw i'r ffaith gyda rhaglen ar S4C yn yr haf i drafod y caneuon. I'r rhai ohonom tua'r hanner cant, cyflwynwyd llun Curnow Vosper i ni o'r newydd, llun a oedd ar furiau teidiau a neiniau llawer ohonom.




Fe'i prynwyd gan gwmni sebon Unilever ar gyfer Oriel Port Sunlight, a rhoddwyd print am ddim efo sebon – dyna sut y cyrhaeddodd gymaint o gartrefi. Daeth i gynrychioli'r Sul Cymreig. I bobl heddiw, - fel ag i Endaf Emlyn, - mae'r llun yn un hiraethus, am Gymru sydd wedi peidio â bod.

Roedd wedi peidio â bod yn 1908 pan y'i peintiwyd, ond dyna sut roedd Sydney Curnow Vosper eisiau ein darlunio – yn sownd yn y gorffennol. Efallai mai dyna pam mae o'n llun mor boblogaidd, mae o'n saff. Ar wahân i hen stori am ddiafol yn y siôl, dydi o ddim yn llun sy'n ein dychryn nac yn ein herio. Hynafol yw Siân Owen yn ei siôl, mae pawb yn hen ar wahân i un hogyn bach. Dydyn nhw ddim yn edrych arnom, mae dros eu hanner yn gweddïo – neu gysgu, anodd ydi dweud. Mae'r lliwiau yn llwm, mae yna deimlad tamp, capelaidd iddo. Dyna sut y mae'r mwyafrif llethol o bobl yn meddwl am gapel a chrefydd. Oes ryfedd eu bod yn cadw draw?

Rydw i am edrych ar y llun o'r newydd. Tuag atom y mae Siân Owen Ty'n y Fawnog yn dod, ac i'r sawl sy'n gyfarwydd efo capel Salem, Llanbedr, mae'n ei hegli hi at y drws. Troi ei chefn ar y llun y mae'r hen wraig, (dwi'n meddwl ei bod wedi cael llond bol a dweud y gwir ar fod yn sownd am ganrif). Gwelwch y syrffed ar ei hwyneb, ac mae'n teimlo'n wirion wedi gorfod gwisgo'r het Gymreig, a benthyg y siôl am nad oedd yr artist yn meddwl bod ei siôl ei hun yn briodol. Mae wedi gafael yn ei llyfr emynau, ac wedi ei throi am y drws. "Dwi'n gadael y lle 'ma, a dwi'n mynd."

Mae'n camu i'r unfed ganrif ar hugain. Dydi ei ffydd, sylwch, ddim wedi newid, wedi cael digon ar y moddion y mae. Mae eisiau moli Duw mewn ffordd newydd, mae hi eisiau teimlo llawenydd, eisiau symud, eisiau llenwi'r lle efo wynebau eraill a phlant ifanc. Do, bu 'Salem' yn berthnasol unwaith, ond mae'r oes honno wedi mynd, ac mae angen ad-drefnu'r dodrefn rhyw gymaint.

Rhowch gynnig arni, os gall Siân Owen godi o'i sedd, siawns na allwn ninnau!




***Diolch o galon i'r tri sydd wedi cytuno i fod ar ein Panel y tro hwn, sef y Parchedig Peter Jennings, y Chwaer Eluned Williams a'r Parchedig Philip Barnett. Rydym yn falch o'u croesawu a chlywed eu sylwadau. Prysurwn i egluro nad yw Maryl, Jennie a Martin wedi ymddiswyddo - cael gorffwys am y tro y maent! Cofiwch y byddwn yn falch o glywed gennych chithau, y darllenwyr, os hoffech wneud sylw neu ofyn cwestiwn. Ac os oes gan rywun jôc i'w rhannu...***

## 1. O gofio dysgeidiaeth Crist yn y Bregeth ar y Mynydd, pam nad yw pob Cristion yn heddychwr? Nia, Powys

**Ateb Eluned**

Roedd fy nhad yn heddychwr ac mae hwn yn gwestiwn anodd i mi bob tro y mae'n codi – yn enwedig eleni gan fod cymaint o sôn am y Rhyfel Byd Cyntaf. Rwy'n ymwybodol, oni bai fod rhai wedi mynd i'r gad, na fuaswn i yma o bosibl.

Trwy'r canrifoedd, ychydig iawn o ddoethineb rydym ni wedi'i ddangos wrth geisio dilyn yr Iesu. Rwy'n credu bod y Crynwyr fel mudiad, sy'n gwrthwynebu trais a rhyfel yn llwyr, yn driw iawn i ddysgeidiaeth yr Iesu. Rwyf yn bersonol yn edmygu'r rhai sy'n sefyll yn erbyn pob math o drais ac anghyfiawnder. Ar yr un pryd rwy'n parchu'r rhai sydd wedi brwydro mewn rhyfel – , rhywbeth sy'n anodd ei ddeall, ond er hynny nid wyf yn teimlo fy mod mewn sefyllfa i'w beirniadu. Cofiwn fod Duw'n caru'r gelyn hefyd.

*Y Chwaer Eluned Williams*

**Ateb Philip**

Mae'n anhygoel i mi fod 'na bobl yn y byd sydd yn dal i gredu bod eu hachos nhw yn fwy pwysig na hawl pobl eraill i fyw. Ac yn ôl yr hyn a glywais yn ddiweddar ar y radio, ar hyn o bryd mae mwy na naw deg o ryfeloedd yn digwydd ar draws y byd. Rwy'n cofio hen weinidog roeddwn i'n ei adnabod flynyddoedd yn ôl yn dweud wrthyf, "Wyddost ti, Philip, yr unig beth yr ydym yn ei ddysgu gan hanes yw nad ydym yn dysgu dim ganddo." Mae'n ddiddorol bod yr adnod yn y gwynfydau sy'n sôn am dangnefeddwyr yn dod ymhell iawn ar y rhestr. Hwyrach fod yr Iesu yn sylweddoli ei bod hi'n cymryd dipyn o amser i ddod yn un ohonynt. Ni fedraf ddweud pam nad yw pob un Cristion yn heddychwr ond rwyf yn sicr bod pob un ohonom wedi ein galw i fod yn dangnefeddwyr, yn wneuthurwyr heddwch. Mae hynny yn golygu ymroi i greu heddwch yn y byd ac yn ein perthynas â phobl eraill.

*Y Parchedig Philip Barnett*

**Ateb Peter**

Wel, mae'n dibynnu beth rydych chi'n ei feddwl wrth...fel mae pobl yn dweud er mwyn cael cyfle i feddwl! Mi fûm i'n gweithio yng Nghyngor Eglwysi'r Byd, sy'n gymdeithas o ryw 350 o wahanol eglwysi, ac roeddwn yn rhyfeddu pa mor anodd oedd cytuno ar eiriad datganiad diwinyddol, ynghylch unrhyw un o bynciau'r dydd. Braf iawn oedd dod yn ôl at fy ngwreiddiau yn yr Eglwys Fethodistaidd, lle nad ydym ni byth yn anghytuno ar ddim byd wrth gwrs. Rydym ni'n deall ein gilydd wrth gwrs. Tybed?

Mae'n dibynnu beth rydych chi'n ei feddwl wrth heddychwr. A all trais fod yn gyfiawn dan unrhyw amgylchiadau? A oes modd defnyddio grym mewn modd priodol? A yw'r dull di-drais yn bwerus? Os darllenwn y Bregeth ar y Mynydd mewn ffordd syml iawn, mae'n ymddangos i mi ei bod yn disgrifio perthnasau dwyochrog oddi mewn i'r Gymuned Gristnogol. Nid sôn y mae mewn gwirionedd am fyd llawn perthnasau amlochrog, sef lle mae'r rhan fwyaf ohonom yn gorfod byw. Beth petawn i mewn cyfyng-gyngor, fel hyn: dyma fi'n sefyll wrth fforch yn y lôn a dyn yn rhedeg heibio i mi, yn amlwg wedi dychryn. Mae'n cymryd y lôn i'r chwith. Ymhen ychydig bach, a'r dyn hwnnw wedi mynd o'r golwg, dyma ddyn cynddeiriog â bwyell ganddo, yn dod heibio. "Pa ffordd aeth o?" meddai dyn y fwyell. Ddylwn i ddweud celwydd, a dweud ei fod wedi mynd i'r dde. Ynteu ddylwn i ddweud y gwir, mynd ar eu holau...yna eiriol pan ddaw'r cyfarfyddiad tyngedfennol, gan ddefnyddio trais, grym neu berswâd i rwystro trais... Yn 1933-1945 a ddylwn fod wedi sefyll o'r neilltu a gwylio fy mrodyr a'm chwiorydd Iddewig yn cael eu gyrru i'r gwersylloedd difa? Yn Hydref 2014, allaf i anwybyddu Gweriniaeth Canolbarth Affrica, yr Aifft, Llain Gasa, Lebanon, Libya, Irac, De Sudan, Syria...?

Cwmpawd a roddodd Iesu inni, nid map Ordnans dau gentimetr i'r kilometr o'r tirlun gwleidyddol a moesegol. Rhoddodd gyfeiriad inni, nid cyfarwyddiadau, gan ddweud "Gweithiwch allan beth yw ffordd cariad – caru Duw a charu eich cymydog...fel chi eich hun."

*Y Parchedig Peter Jennings*

---

Ym mhwyllgor yr Ardal fis Medi
Fe basiwyd i rannu siocledi
I bawb oedd yn ffyddlon
I'r achos yn Seion
A disgownt ar dâl ymaelodi

*–RJ*

Gofynnodd hen gyfaill o Wesla
am dransffer i'r eglwys, - drws nesa
Derbyniodd y drefn,
cafodd sêt yn y cefn
a chysgodd yn sownd am wythnosa

*–RJ*

## 100 mlynedd yn ôl

**O'r *Gwyliedydd Newydd* – Tachwedd 10fed, 1914**

**EBENEZER LLANDUDNO**

PREGETHWR DIEITHR. – Bu yr efengylydd o Gapel Garmon yn Ebenezer y Sul diweddaf – pregethodd foreu a hwyr a thalodd ymweliad a'r Ysgol yn y pryd-nawn. Yr oedd yr hen, hen hanes mor felys ac erioed.

***Oes rhywun yn gwybod pwy oedd yr efengylydd o Gapel Garmon, tybed? Os oes, cysylltwch â ni fel y gallwn gyhoeddi eich ateb yn rhifyn nesaf y Gwyliedydd. - RJ.***

## Merched Methodistaidd

Gwahoddir pawb yn gynnes i

**GYFARFOD YR HYDREF**

ym **Mathafarn, Rhuthun**
ar **11 Hydref am 2.30pm**

Y siaradwr fydd **Dr RHIANNON LLOYD**
llysgennad meddygol yn Rwanda

***Croesewir pawb i de hefyd yn dilyn y cyfarfod***

Trefnir bws o Borthmadog.
Cysylltwch â Valerie Williams:
**01758 614083**

*Holi'r Panel – parhad o dudalen 12*

## 2. Beth yw eich hoff jôc, neu beth sy'n peri i chi chwerthin? Hedydd, Arfon

**Ateb Philip**

Mae gen i gannoedd o jôcs - rhai yn well na'i gilydd. Anodd iawn meddwl pa un i'w gynnig...

Cafodd Mr William Jones, Cefnddwysarn, freuddwyd. Yn ei freuddwyd roedd wedi croesi'r Iorddonen a glanio yn y nefoedd. Dyma fo'n darganfod ei hun mewn ymarfer o'r Côr Nefolaidd. Roedd mil o sopranos, mil o altos, mil o faswyr a dim ond un tenor - y fo. Ond, tenor o Gymru, wrth gwrs!

Dechreuodd yr ymarfer a phan oedd yn ei anterth dyma'r Arweinydd nefolaidd yn curo ar ei ddesg a phopeth yn dod i stop."Mr Jones," meddai, "dipyn bach llai o'r tenor os gwelwch yn dda"!

A beth am hwn...Roedd y Gweinidog newydd yn ymweld â'i aelodau. Dyn tawel oedd o a dim llawer o sgwrs ganddo. Galwodd i weld hen wraig, a ddychrynodd o weld y Gweinidog ar stepen y drws. I mewn â nhw ac eistedd yn y parlwr. Gofynnodd yr hen wraig, a oedd ar bigau'r drain, "Gymerwch chi banad o de Mr Jones? "Dim te diolch," meddai. Distawrwydd wedyn a dyma hi'n trio eto." Mr Jones, gymerwch chi banad o goffi?" "Dim coffi diolch". Erbyn hyn, roedd hi'n dechrau anobeithio. "Mr Jones," meddai yn llawn ffwdan, "gymerwch chi wydraid bach o wisgi a thropyn o ddŵr ar ei ben?" "Dim dŵr diolch Mrs Jones," meddai.

*Y Parchedig Philip Barnett*

**Ateb Eluned**

Yn ystod y tywydd poeth yr haf yma, cefais alwad ffôn gan un o'r merched a fu yn fy ngofal pan oedd yn blentyn. Roedd mor boeth yn ei fflat, meddai, nes bod ei chi yn gorwedd â lliain sychu llestri gwlyb drosto ac yn edrych yn debyg i'r Fam Teresa. Heb fod yn amharchus i'r Fam Teresa, roedd yn rhaid imi chwerthin! Trueni na chedwais i gofnod o'r holl bethau doniol a ddywedodd y plant dros y blynyddoedd. Cofiaf un yn dweud, eto pan oedd hi'n dywydd poeth iawn, fod ei groen yn gollwng! ("Sister, my skin's leaking"!)

*Y Chwaer Eluned Williams*

**Ateb Peter**

**Y GWEINIDOG PERFFAITH**

Mae'r Gweinidog Perffaith yn pregethu am union 15 munud; mae'n condemnio pechod er nad yw byth yn tramgwyddo neb. Mae'n gweithio o 8.00am tan hanner nos ac mae'n ennill rhyw £50 yr wythnos. Mae'n drwsiadus, byth yn edrych yn flêr, yn prynu'r llyfrau diweddaraf, yn gwahodd pobl am fwyd, yn gyrru car newydd ac yn rhoi rhyw £2,500 y flwyddyn i'r tlodion ac i'r capel. Mae'n 28-30 oed ac mae ganddo oddeutu 25-30 o flynyddoedd o brofiad fel gweinidog. Mae ar dân eisiau gweithio efo pobl ifanc ac mae'n rhoi ei amser i gyd i'r henoed.

Mae'r Gweinidog Perffaith yn gwenu drwy'r amser ond yn cadw wyneb syth: mae'n un sydd â synnwyr digrifwch ac sydd o ddifrif am ei waith bob amser. Mae'n ymweld yn ddyddiol â'r holl aelodau, pawb sy'n wael ac yn yr ysbyty; mae'n treulio ei holl amser yn cenhadu i'r digrefydd ac mae bob amser yn ei stydi os bydd ar rywun ei eisiau.

(Adran Weinidogaethau yr Eglwys Fethodistaidd, 1990)

*Y Parchedig Peter Jennings*

# Perffaith chwarae teg



gan Dewi Rhys

Pob mis Awst ers 1984 byddaf yn ymweld â gŵyl ryngwladol Caeredin. Yn y 'fringe' y byddaf yn treulio fy amser, yn gwylio perfformwyr ar y strydoedd, dramâu at bob chwaeth, comedi, cerddoriaeth a heb anghofio'r ŵyl lyfrau sy'n cynnwys sgyrsiau gydag awduron o bedwar ban byd.

Mae'r rhaglen yn cynnwys tua mil o sioeau, felly mae'n hanfodol cynllunio pa rai i'w gweld. Ar gyfartaledd mi wnaf wylio oddeutu chwe sioe y dydd – gan fod yna berfformiadau bob dydd am fis o 10am tan 3am y bore canlynol!

Eleni penderfynais ofyn i fy merch 15 oed a hoffai fynychu'r ŵyl, ac yn wir mi gytunodd. Rhaid felly oedd dewis a dethol cynyrchiadau a sioeau fyddai'n apelio ati hi. Gan fod cynifer ohonynt, llwyddwyd i gadw'r ddau ohonom yn hapus. Y diwrnod cyntaf cawsom gymysgfa o gerddoriaeth a chomedi gan ferch oedd wedi astudio mewn coleg cerdd ac yn ceisio cyflawni mwy na bod yn aelod o gerddorfa drwy ychwanegu comedi at ei repertoire. Wrth ymlwybro yn ôl i'r gwesty tua deg y nos, gwelsom hysbysiad am griw o Americanwyr yn olrhain hanes y 'Blues' ar lafar a chân. Criw anhygoel o wych ac roeddem mor falch ein bod wedi mentro mynd i weld y sioe yma waeth pa mor hwyr oedd hi. Dyma sy'n gyffrous am y fringe, sef y ffaith bod yna sioeau gwych ar gael yn ogystal â rhai gwael ofnadwy; ond mae pawb yn cael cyfle i berfformio beth bynnag y safon.




Y diwrnod canlynol cawsom weld yr enwog Paul Merton mewn sesiwn byrfyfyr a hefyd yn cymryd rhan mewn drama o'r enw 'My obsession' a oedd yn trafod y modd y mae dynoliaeth a chymdeithas wedi mynd mor hunanol ei ffordd. Euthum i weld Stewart Lee yn traethu am gyfiawnder ac anghyfiawnder y Mwslemiaid ym Mhrydain, tra bu fy merch yn cael ei gwefreiddio gan berfformiad pianydd o fri. Braf oedd cael rhannu ein profiadau cyn mynd ar frys i'r lleoliad nesa.

Gorffennwyd yr wythnos gyda'r comedïwr Jason Byrne ac yn ystod y sioe cefais i fy holi ganddo. Wrth gwrs roedd hyn wrth fodd fy merch, yn gweld rhywun yn ceisio curo ei thad ar dynnu coes! Diweddglo hwyliog i wythnos llawn profiadau gwahanol.

Cyn teithio nôl i Gymru fach cawsom sgwrs am y ffaith fod pawb yn cael ei drin yn gyfartal, yn berfformwyr enwog a phrofiadol neu yn fyfyrwyr ifanc di-glem. Pawb yn cael cyfle i arddangos ei dalent heb neb yn gwawdio a beirniadu. Neb ar lwyfan yn cael ei roi mewn categori – cyntaf, ail, trydydd.

Roedd pawb yma yn haeddu'r rhuban glas; neb yn cael cam a theimlo'n chwerw a blin. Yn hytrach, pawb yn rhannu syniadau a chynorthwyo ei gilydd – gan ennyn teimladau braf a oedd yn peri tawelwch meddwl.

Meddyliais am ddisgyblion yr Iesu yn rhannu a chyd-dynnu, yn helpu ei gilydd a'r holl bobl. Llwyddiant ysgubol, ond unwaith y bu cystadlu a gofyn gormod yn eu mysg mi aeth yn flêr ar bawb.

Fis Mehefin nesa' bydd yna ddewis yn ein tŷ ni – Eisteddfod ynteu Gŵyl Caeredin, a sgwn i beth fydd yr ateb? Ma wna' i roi gwybod i chi maes o law…!

# Thomas Charles

## (1755–1814)

### 'Rhodd yr Arglwydd i'r Gogledd'

gan y Parchedig
Ddr Huw John Hughes

**Eleni byddwn yn cofio marwolaeth Thomas Charles ar 5 Hydref 1814 ychydig ddyddiau cyn ei benblwydd yn 59 oed. Yn yr erthygl hon edrychwn ar ei gyfraniad i fyd addysg yn negawdau olaf y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.**

HANAI Thomas Charles o blwyf Llanfihangel ger Sant Clêr, Sir Gaerfyrddin. Treuliodd dair blynedd yn ysgol Llanddowror cyn mynd, yn bedair ar ddeg oed i Academi Caerfyrddin lle bu'n dilyn cwrs o astudiaeth rhwng 1769 a 1775. Yn ystod y cyfnod hwn, ac yntau heb gyrraedd ei ddeunaw oed, clywodd Daniel Rowland yn pregethu ac yn ei eiriau ei hun, 'o'r diwrnod cysurol hwnnw cefais fath o nef newydd a daear newydd i'w mwynhau'. Yn dilyn ei dröedigaeth, rhwng 1775 a 1778 aeth i Goleg Iesu, Rhydychen am dair blynedd. Ordeiniwyd ef yn gurad yn Eglwys Loegr a bu'n gweinidogaethu yng Ngwlad yr Haf – cyfnod anhapus iawn yn ei fywyd. Cefnodd ar Wlad yr Haf ac ym 1783 priododd â Sally Jones, merch o'r Bala ond câi anhawster i gael bywoliaeth yng Nghymru oherwydd ei ddaliadau efengylaidd. Gadawodd yr Eglwys a chododd ei babell gyda'r Methodistiaid yn nhref y Bala. Cychwynnodd ar ei ysgolion cylchynol ym 1785 ac ymhen rhai blynyddoedd wedyn y dechreuodd arbrofi gyda'r ysgolion Sul. Erbyn hyn roedd Charles yn asiant i Gymdeithas yr Ysgolion Sul yng Nghymru.

Ymaelododd â'r Methodistiaid mewn cyfnod tyngedfennol yn eu hanes, pan oedd oes yr arweinwyr cynnar yn dirwyn i ben a'r ansicrwydd pwy fyddai'n eu tywys ymlaen i'r dyfodol. Cafodd glod gan Daniel Rowland ar ôl gwrando arno'n pregethu ym 1785 a heb os roedd gan y mudiad arweinydd newydd ac egnïol yn Charles. Sicrhaodd, er yn betrus, fod y Methodistiaid yn barod ar gyfer yr ordeinio ym 1811 a gellir dweud mai ef yn bennaf trwy ei waith gyda'r Feibl Gymdeithas, yr ysgolion Sul, y Geiriadur a'r Catecismau fu'n foddion i lywio'r enwad ymlaen i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Gallwn ddadansoddi ei gyfraniad addysgol dan dri phennawd:

#### Gweld yr angen

Gwelodd Thomas Charles angen ei genedl. Ar ôl iddo gefnu ar yr Eglwys Sefydledig aeth ati gyda brwdfrydedd i ddechrau pregethu gyda'r Methodistiaid. Ar ei deithiau gwelodd pa mor anllythrennog oedd ei gyd-Gymry, yn blant ac oedolion. Gwelodd mai'r angen pennaf oedd dysgu'r bobl i ddarllen er mwyn iddynt ddeall neges ei bregethau. Aeth ati ar ei union, wrth ei draed yn y Bala gan ddysgu'r plant i ddarllen. Gwyddai o brofiad pa mor effeithiol oedd ysgolion cylchynol Griffith Jones, Llanddowror wedi bod a'r hyn a wnaeth Charles oedd dilyn patrwm y gŵr hwn.



Cychwynnodd ar yr ysgolion cylchynol hyn ym 1785. Sylweddolodd pa mor anodd oedd pregethu i gynulleidfaoedd nad oedd yn gyfarwydd â neges y Beibl am na fedrent ei ddarllen a'i ddeall.

#### Diwallu'r angen

Y cam cyntaf oedd hyfforddi athrawon a dechreuodd arni yn y Bala – un ym 1785, saith ohonynt ym 1786, dwsin ym 1787 ac ugain erbyn 1794. Ar y dechrau £8 y flwyddyn oedd cyflog athro gan godi i £12 ym 1797. Nid oedd pob athro'n derbyn yr un cyflog fel y gwelwn yn hanes Lewis Wiliam, gŵr a ddaeth yn ei dro yn athro ar yr enwog Mary Jones, a gŵr nad oedd ef ei hun (yn ôl pob tystiolaeth) wedi meistroli'r sgil o ddarllen. I Charles roedd dethol athrawon cymwys yn gwbl allweddol a'r cymwysterau angenrheidiol ar gyfer y gwaith oedd duwioldeb, moesoldeb a gwyleidd-dra. Ef hefyd fyddai'n sefydlu'r athrawon yn eu cylchoedd a byddai'n eu harolygu yn rheolaidd. Mynnai Charles fod hyfforddiant mewn swydd yn digwydd yn gyson ac yn bersonol ar lawr y dosbarth. Dewisai ei ardaloedd yn ofalus trwy ymweld â'r lleoedd ei hunan cyn dechrau ar y gwaith. Ar ôl trafod â rhai o'r trigolion byddai'n galw cyfarfod gan nodi'r man a'r lle a chyhoeddi y byddai ef ei hun yn annerch y plwyfolion ar bwysigrwydd dysgu'r plant i ddarllen Gair Duw gan eu sicrhau o gymorth athro. Hyd y gellir olrhain, pwrpas yr ysgolion cylchynol oedd dysgu plant y tlodion a'r ieuenctid i ddarllen y Beibl yn eu mamiaith a'u dysgu yn egwyddorion crefydd trwy eu holwyddori. Roedd dysgu'r plentyn i ddarllen yn ei famiaith yn prysuro'r broses; cymerai chwe mis, yn hytrach na dwy neu dair blynedd i ddysgu trwy iaith nad oedd yn iaith gyntaf i'r disgybl. Roedd y famiaith yn cyfleu ystyr ac yn cynorthwyo'r unigolyn i ddeall iaith y Beibl ac iaith pregeth. O'r ysgolion cylchynol hyn y tyfodd yr ysgolion Sul a'r gwaith a wnaed ganddynt a sicrhaodd athrawon i waith yr ysgolion hynny.

#### Nod y cyfan

Prif symbyliad Charles oedd achub enaid, 'by teaching Welsh **first** we prove to them that we are principally concerned about their souls' (D. E. Jenkins, *The Life of the Rev. Thomas Charles B.A. of Bala,* III Denbigh 1908, ail arg. 1910 t368) Mewn cyfnod pan oedd y plant yn marw'n ifanc roedd hi'n fater o frys i gael y plant a'u rhieni i ddwys ystyried eu cyflwr ysbrydol a'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hynny oedd darllen a deall y Beibl yn eu mamiaith a hynny mewn cyn lleied o amser â phosibl.

Gweinidogaeth addysgiadol loyw oedd ei gyfraniad – nid yn unig i'r plant ond i'r oedolion hefyd. Seminarau oedd ysgolion Sul yr oedolion – cyfle i drin a thrafod a defnyddio iaith goeth, gyfoethog y Beibl. Dyma ddyrchafodd feddwl a thafod y werin. Gallai'r math hwn o addysg arwain y bobl i agor gwahanol ddrysau yn eu cymunedau. Pwysleisiodd Charles hefyd fod dysgu cwrteisi i blant yn rhan o ddyletswydd yr ysgolion am ei fod 'yn hardd a hyfryd ynddo ei hun' a phwrpas y rheolau hyn oedd parchuso a dyrchafu'r werin a'u gwneud yn aelodau boneddigaidd a gwâr o'r gymdeithas ond yn fwy na dim rhoi urddas ac anrhydedd i bobl oedd wedi eu hanwybyddu a'u bychanu am genedlaethau gan yr haen uwch.

Llwyddodd ysgolion Sul Thomas Charles i greu microcosm o wareiddiad wedi'i sylfaenu ar egwyddorion a dysgeidiaeth y Beibl. Dyrchafwyd y werin a'i gwneud yn werin lafar hyderus a rhoddwyd bri ar addysg a diwylliant a gwneud y Gymraeg, nid yn unig yn iaith carreg yr aelwyd ond yn iaith dysgu ac hyfforddi, ymryson a dadlau, pwyllgora a threfniadaeth.

Cofiwn am Thomas Charles a dysgwn ganddo gan ofyn eleni ydym ni yn ein cyfnod ni'n gweld yr angen ac yn ymateb iddo, gan fod yn barod i weithredu?

# Galwad i ddod i Gymru

gan y Diacon STEPHEN ROE



Roedd yn fis Hydref 2003. Roeddwn i newydd gychwyn ar fy mlwyddyn olaf o hyfforddiant yn Wesley House, Caergrawnt, i fod yn Ddiacon. Cafodd Angela, fy ngwraig, a finnau apwyntiad i fynd i weld y Pwyllgor Sefydliadau ar gyfer Diaconiaid yn Birmingham, y grŵp o bobl a fyddai'n penderfynu ym mhle y bydden ni'n byw am gyfnod o bum mlynedd o fis Medi 2004 ymlaen.

Gofynnwyd inni gwblhau ffurflen (uniaith Saesneg wrth gwrs) cyn mynd i'r pwyllgor, yn holi ein barn ynglŷn â pha fath o le a fyddai'n addas i ni. Un o'r cwestiynau ar y ffurflen oedd, 'Ydych chi'n fodlon mynd i wasanaethu mewn Cylchdaith Gymraeg ei hiaith?' Ar ôl trafod efo Angela, a chan ystyried yn arbennig yr effaith bosibl ar addysg ein plant – roedd Christopher yn 10 oed ar y pryd, ac Emily yn 6 – mi wnes i dicio'r blwch 'Nac ydym'. Wel, aethom i Birmingham. Roedden nhw'n gwybod fy mod i wedi gweithio fel athro Almaeneg a Ffrangeg yn y gorffennol, ac yn ystod y sgwrs dywedwyd wrthym fod posibilrwydd bach, bach o benodiad yng Ngogledd Cymru, mewn Cylchdaith Saesneg, a gofynnwyd a fyddem yn fodlon newid y tic yn y blwch. A dyna ninnau'n cytuno.


Ym mis Tachwedd, daethom i ymweld â Sir Fôn, ar yr amod bod gennym hawl i wrthod mynd yno os nad oeddem yn hapus efo'r penodiad; anaml y bydd hyn yn digwydd pan fydd gweinidog neu ddiacon yn mynd allan ar brawf. Fe wnaethom aros efo un o'r goruchwylwyr yng Nghylchdaith Bangor a Chaergybi, a oedd yn rhan o'r North Wales District bryd hynny. Ein pryder mwyaf oedd ysgolion, felly aethom i weld y Swyddog Addysg yn Llangefni, a esboniodd fod yr ysgolion yn ddwyieithog a bod cymorth arbennig ar gael i blant di-Gymraeg sy'n symud i mewn. Aethom i fore coffi yn Amlwch, heb i neb wybod pwy yn union oeddem ni, a chawsom gyfarfod â'r Parchedig Peter Brant, Arolygydd Cylchdeithiau Bangor a Chaergybi a Môn ac Arfon. Ar ôl mynd adref, dyma benderfynu y byddem yn barod i fynd i Sir Fôn – wedi'r cwbl, petaem yn gwrthod, pwy a ŵyr i ble y byddem yn cael ein hanfon wedyn, heb unrhyw ddewis y tro hwnnw!

Ar ôl y Nadolig, es yn ôl i Gaergrawnt. Cytunais â'r Coleg i beidio â dilyn un o'r cyrsiau yr oeddwn i wedi'i ddewis ond prynu llyfr a chasét 'Teach Yourself Welsh' a defnyddio'r amser i ddechrau dysgu'r iaith. Fel y digwyddai, roedd myfyrwraig arall yn y Coleg oedd yn siarad Cymraeg fel mamiaith (tadiaith, i fod yn gwbl gywir), ac mi wnaethom ni gyfarfod yn wythnosol fel fy mod yn cael cyfle i ymarfer beth roeddwn i wedi'i ddysgu yn ystod yr wythnos flaenorol. Rhaid i mi ddweud, mi wnes i fwynhau dysgu Cymraeg yn fawr, a thrwy ddysgu'r iaith ailgyneuwyd fy nghariad at ieithoedd, a gollais i ryw raddau wrth weithio fel athro. Ym mis Mehefin talodd yr Eglwys i mi ddod i'r Ysgol Haf ym Mhrifysgol Bangor am dair wythnos. Roedd yr wythnosau yn nefoedd i mi - dysgu iaith newydd drwy'r dydd a gwylio pêl-droed ar y sgrin fawr yn y bar bob nos (Pencampwriaeth Ewrop ym Mhortiwgal). Ac yna symud i Amlwch ym mis Awst 2004, i weithio yn gyntaf efo'r Gylchdaith Saesneg, ond yn fwyfwy ymhen amser efo'r capeli Cymraeg, a bydd fy holl swydd o fewn Synod Cymru o fis Medi eleni ymlaen.

Mae'n rhyfeddol sut y mae Duw yn defnyddio ein doniau a'n talentau. Pan roddais y gorau i'm gyrfa fel athro, ni ddychmygais y byddai Duw yn defnyddio fy sgiliau fel ieithydd i'w wasanaethu fel y mae wedi gwneud. Mae Duw yn ein hadnabod yn well nag rydym yn ein hadnabod ein hunain; mae'n gweld posibiliadau yr ydym ni'n ddall iddynt. Rydw i'n diolch i Dduw, ac i'r Eglwys hefyd, am agor ein llygaid i'r posibilrwydd ac i'r her o ddod i'w wasanaethu yma yng Nghymru.

# O'R PENRHYN I'R PALAS

Cafodd un o olygyddion y Gwyliedydd sgwrs ddiddorol yn ddiweddar â Mary Evans, aelod o'r Eglwys Fethodistaidd sy'n addoli yn y Tabernacl, Penrhyndeudraeth. Mae Mary wedi bod yn weithgar gyda'r Groes Goch ers dros ddeugain mlynedd a'r haf hwn cafodd wahoddiad i arddwest ym Mhalas Buckingham, Llundain.



**Gol: Pa fath o waith ydych chi wedi bod yn ei wneud efo'r Groes Goch, Mary?**
***Mary:*** Cymorth cyntaf, nyrsio a gofal therapiwtig. Hyfforddi gwirfoddolwyr eraill, hefyd.

**Gol: Rwy'n deall eich bod wedi cael eich anrhydeddu â Bathodyn Anrhydedd am gyfraniad arbennig. Yn ogystal â chael eich gwahodd i'r Palas, wrth gwrs! Gawsoch chi hwyl yn yr arddwest?**
***Mary:*** Do, roedd yn ddiwrnod bendigedig.


**Gol: Gawsoch chi daith hwylus i fynd yno?**
***Mary:*** Na, mi gyrhaeddais i Fangor a sylweddoli fy mod i wedi colli'r trên! Ond achubwyd y dydd gan Graham, cydweithiwr oedd hefyd yn dod i Lundain. Mae Graham yn gwirfoddoli efo gwasanaeth cludiant a hebrwng y Groes Goch.

**Gol: Sut le oedd yn yr arddwest?**
***Mary:*** Wel, roedd y te wedi'i osod allan ar fyrddau o dan goed. Cawsom ni frechdanau ciwcymbr a mintys a tharten mafon. O, a chacen siocled wedi'i haddurno â choron lliw aur.

**Gol: Gawsoch chi gip ar rai o drigolion y Palas?**
***Mary:*** Do. Roedd un neu ddau yno. Daeth y Dywysoges Alexandra heibio a gofyn oeddem ni wedi mwynhau'r te. Dwi'n siŵr fy mod wedi gweld y Frenhines, hefyd, yn pipian drwy ffenestr y llofft.

**Gol: Diolch am ddweud yr hanes, Mary.**

# Tudalen y Plant





Beth ydych chi'n ei hoffi orau am yr Hydref? Lliwiau'r dail, y Diolchgarwch, Nos Calan Gaeaf... neu hyd yn oed fod y Nadolig yn agosáu!

Ar ôl Nos Calan Gaeaf, ar y cyntaf o Dachwedd, y mae Dydd Gŵyl yr Holl Saint. Dyna pryd rydym yn dathlu fod y saint i gyd gyda Iesu Grist mewn goleuni a bod Iesu yn rhoi ei oleuni i ni. Dywedodd Iesu Grist 'Myfi yw goleuni'r byd' (Ioan 8:12).

**Fedrwch chi orffen y llun yma a'i liwio?**

